Estyn

estyn.gov.uk

# Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda

Mehefin 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **2**

**Prif ganfyddiadau** **5**

Partneriaethau strategol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd ac UCDau 5
Arfer dda mewn UCDau 5
Arfer dda mewn ysgolion 7

**Argymhellion** **8**

**Partneriaethau strategol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd ac UCDau** **9**

**Arfer dda mewn UCDau** **17**

Strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad 17
Cwricwlwm sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol 21
Ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion 23
Nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac ymyrraeth amserol 24
Strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio 26

**Arfer dda mewn ysgolion** **28**

Cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb pob disgybl 28
Dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad 31
Nodi ac ymyrraeth gynnar 33
Gweithio gyda phartneriaid 41

**Atodiad 1: Cyfeiriadau** **44**

**Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** **45**

**Atodiad 3: Geirfa** **50**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** **50**

## Cyflwyniad

Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu tîm ymchwil o Brifysgol Caeredin i archwilio'r broses o wahardd o'r ysgol yng Nghymru a chyflwyno, cynllunio a chomisiynu darpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Deilliodd adroddiad o hyn, sef 'Gwerthusiad o'r Ddarpariaeth Addysg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gaiff eu Haddysgu y Tu Allan i'r Ysgol' (McCluskey et al., 2013).

Mae'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys diffyg cysondeb mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn perthynas ag ansawdd y cwricwlwm, dulliau o reoli ymddygiad, a strategaethau ailintegreiddio.

Mae'r adroddiad yn argymell:

> Dylid nodi a hyrwyddo arfer dda mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol a dylai cyfarfodydd rheolaidd darparwyr annog lledaenu arfer dda. Dylai hyn gynnwys rhannu enghreifftiau da o gwricwla sy'n bodloni safonau presennol, a rheoli ymddygiad effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn (McCluskey et al., 2013, tud.9).

Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn y llythyr cylch gwaith Gweinidogol i Estyn ar gyfer 2014-2015. Dyma yw nodau'r adroddiad:

- nodi enghreifftiau o arfer dda mewn strategaethau ymyrraeth gynnar o ysgolion cynradd ac uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), ac awdurdodau lleol, sy'n ceisio lleihau nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

- nodi enghreifftiau o arfer dda mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn perthynas â'r canlynol:

  - cwricwla sy'n bodloni anghenion pob disgybl
  - strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad/dulliau ar gyfer lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio mewn addysg heblaw yn yr ysgol
  - strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio.

Mae bron pob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn mynychu UCDau, ac mae'r arolwg hwn yn canolbwyntio ar UCDau yn hytrach na'r ystod ehangach o ddarpariaeth arall ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r UCDau a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau'r arolwg yn cynnwys UCDau a oedd wedi cael adroddiadau arolygu da yn ddiweddar neu UCDau a oedd wedi cael eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol ar ôl eu harolygiad craidd ond a oedd yn dangos gwelliant. Mae'r UCDau yr ymwelwyd â nhw yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), problemau iechyd meddwl, pryder neu bresenoldeb yn bennaf. Ymwelodd arolygwyr â 20 o ddarparwyr. Yn ystod yr ymweliadau, craffodd arolygwyr ar ddogfennau a chynnal cyfweliadau gyda rheolwyr a disgyblion.

## Cefndir

Mae'r term Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cyfeirio at unrhyw fath o addysg y tu allan i'r ysgol lle mae awdurdodau lleol yn ariannu lleoliadau disgyblion unigol. Mae 'Disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol 2013/14' (Llywodraeth Cymru, 2014a) yn cyfeirio at y categorïau canlynol o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol:

- Uned cyfeirio disgyblion
- Coleg addysg bellach
- Ysgol a gynhelir
- Ysgol arbennig nas cynhelir
- Gwersi unigol
- Porth Ieuenctid
- Addysg yn gysylltiedig â gwaith
- Darparwr hyfforddiant
- Sefydliad gwirfoddol
- Wedi buddsoddi mewn darpariaeth y sector preifat
- Ysgol annibynnol
- Darpariaeth nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod, neu sydd y tu allan i'r awdurdod
- Arall

Nid yw'r term Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn berthnasol i ddisgyblion sy'n cael addysg ddethol gartref.

Mae rhai disgyblion yn cael rhan o'u haddysg mewn ysgol a rhan ohoni trwy addysg heblaw yn yr ysgol. Yn 2013/14, roedd 2,367 o ddisgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser (5.1 o 1000 o ddisgyblion), ac roedd 1,225 o'r rhain (2.6 o 1000 o ddisgyblion) yn cael eu prif addysg heblaw yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014a).

UCDau yw'r ddarpariaeth addysg a ddefnyddir amlaf o hyd ar gyfer disgyblion sy'n cael eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Yn 2013/14, mynychodd 1,084 o ddisgyblion yng Nghymru UCDau, naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser. Roedd 639 o'r disgyblion hyn wedi eu cofrestru mewn un UCD, ac roedd 445 o ddisgyblion wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn UCD a lleoliad arall. Roedd tua 200 o'r disgyblion hyn yn 11 oed neu'n iau (Llywodraeth Cymru, 2014a).

Yn gyfreithiol, mae UCDau yn fath o ysgol a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel ei gilydd. Er bod gan ysgolion gyrff llywodraethol, mae gan UCDau bwyllgorau rheoli sydd â rôl bwysig mewn llywodraethu'r UCDau. Mae'r arweiniad sy'n adlewyrchu 'Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014' yn datgan y canlynol:

> Bwriedir i bwyllgorau rheoli gyflawni swyddogaethau cynghori ynghyd â chyfrifoldeb statudol ar gyfer rhai swyddogaethau neu dasgau penodol. Disgwylir iddynt gyfrannu'n ymarferol at y rhan fwyaf o'r penderfyniadau er mwyn sicrhau bod eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu rhedeg yn effeithiol ac yn darparu addysg addas ar gyfer dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014b, tud.11).

Bwriedir i UCDau ddarparu lleoliadau tymor byr, canolig a hir gyda'r bwriad o ailintegreiddio disgyblion, cyhyd ag y bo'n ymarferol, mewn ysgol gynradd, uwchradd neu arbennig neu i baratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. I lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â disgyblion sydd wedi bod allan o'r ysgol am gyfnod sylweddol, efallai na fydd yn ymarferol neu'n briodol iddynt ddychwelyd i ysgol prif ffrwd.

Mae 'Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006) yn disgrifio darpariaeth UCD fel a ganlyn:

- darpariaeth ar un safle
- darpariaeth ar nifer o safleoedd o dan un strwythur rheoli
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion peripatetig (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig)
- darpariaeth 'e-ddysgu' sy'n defnyddio TGCh ac adnoddau ar y we
- gwasanaethau addysgu yn yr ysbyty a'r cartref, neu rannau ar wahân o wasanaeth sy'n darparu addysg mewn uned neu leoliad tebyg i ysgol
- rhywfaint o ddarpariaeth ysbyty
- darpariaeth ar wahân ar gyfer mamau ifanc / neu ddisgyblion beichiog
- darpariaeth ymbarél i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol


Ym Medi 2014, roedd 31 o UCDau yng Nghymru, er bod y nifer hon wedi amrywio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod UCDau nad oeddent wedi eu cofrestru yn y gorffennol bellach wedi eu cofrestru ac fe gafodd nifer o UCDau eu huno gan awdurdodau lleol i greu UCDau 'portffolio' gyda nifer o ddarpariaethau ar wahanol safleoedd.

Mae llawer o'r disgyblion sy'n mynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol naill ai wedi cael eu gwahardd o addysg prif ffrwd neu maent mewn perygl o gael eu gwahardd. Bu gostyngiad sylweddol yng nghyfradd y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru, o 149 (2003/04-2005/06) i 29 (2009/10-2012/13) ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac o 1,141(2003/04-2005/06) i 323 (2009/10-2012/13) ar gyfer disgyblion oedran uwchradd (Llywodraeth Cymru, 2014c).

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu addysg amser llawn i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol 15 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwahardd, naill ai mewn ysgol arall, mewn UCD neu ddarpariaeth arall. O'r rhai a gafodd eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn 2012-2013, aeth dros 30% i UCD, symudodd tua 25% ohonynt i ysgol gynradd neu uwchradd newydd a gynhelir, a rhoddwyd gwersi gartref i ryw 15% o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid oedd 12% o'r disgyblion a oedd wedi eu gwahardd yn barhaol yn derbyn unrhyw ddarpariaeth addysgol ar ddiwrnod 16 ar ôl iddynt gael eu gwahardd (Llywodraeth Cymru, 2014c).

Rhwng Medi 2010 a Gorffennaf 2014, arolygwyd 26 UCD gan Estyn. Mae'r arolygiadau hyn yn dangos bod amrywiad sylweddol yn ansawdd yr addysg a ddarperir gan UCDau. Mae'r siart ganlynol yn dangos bod Estyn, yn ystod y cyfnod hwn, wedi rhoi naw UCD mewn categori o leoliadau sy'n achosi pryder, bod naill ai angen eu gwella'n sylweddol neu fod angen mesurau arbennig arnynt. Barnwyd bod angen i wyth UCD gael eu monitro gan Estyn ond gwelwyd enghreifftiau o arfer ragorol mewn pum UCD.

**Nifer yr UCDau yn y categori gweithgarwch dilynol, Medi 2010 – Gorffennaf 2014**




Yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2013-2014, dyma a ddywedodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

> Yn gyffredinol, mae deilliannau arolygu yn waeth ar gyfer UCDau nag ar gyfer sectorau eraill. Mae hyn yn ddarlun tebyg i'r llynedd, ac mae angen ar frys o hyd am arweinyddiaeth gadarnach gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn rheoli UCDau yn uniongyrchol ac maent mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes gweledigaeth na strategaeth glir gan ddigon o awdurdodau lleol ar gyfer sut mae eu UCDau yn cydweddu â'r ystod o wasanaethau a gynigiant i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Arweinyddiaeth gadarn yw'r allwedd i wella addysgu, y cwricwlwm a deilliannau mewn UCDau, ond nid oes digon o hyfforddiant datblygu arweinyddiaeth na chymorth ar gyfer athrawon â gofal (Estyn, 2015, tud.101).

## Prif ganfyddiadau

**Partneriaethau strategol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd ac UCDau**

1 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio yn fwyaf effeithiol pan fydd awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau yn gweithio gyda'i gilydd i fodloni anghenion y disgyblion hyn a sicrhau eu bod yn aros mewn addysg amser llawn. Dwy enghraifft o hyn yw Cyngor Ceredigion a Chyngor Dinas Casnewydd. Mae gan yr awdurdodau lleol hyn strategaeth glir ar gyfer cefnogi ac ailintegreiddio a chontinwwm o ddarpariaeth[1] i fodloni anghenion y disgyblion hyn. Mae gan UCDau a mathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ran bwysig yn y continwwm hwn o ddarpariaeth. Yn yr arfer orau, mae gan y lleoliadau hyn brosesau cyfeirio sefydledig a meini prawf mynediad ac ymadael clir ac mae gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir o rôl UCDau.

2 Pan gaiff disgyblion eu hailintegreiddio i ysgol yn llwyddiannus, mae gan ddisgyblion, rhieni, staff yr UCD a'r ysgol ddealltwriaeth glir mai ymyrraeth dargedig tymor byr yw lleoli disgybl mewn UCD. Fodd bynnag, i lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, nid yw dychwelyd i addysg prif ffrwd yn ddewis priodol.

**Arfer dda mewn UCDau**

3 Pan fydd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd UCDau, maent yn sicrhau bod ganddynt adnoddau da o ran staffio, adeiladau ac offer. Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn cymryd rhan mewn mentrau awdurdod lleol ac yn manteisio ar y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael i gydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig fel newidiadau i'r cwricwlwm a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, pan nad yw staff UCD yn cael y cyfleoedd hyn, maent yn teimlo eu bod ar wahân a heb gymorth. Ar draws y consortia rhanbarthol, nid oes trefniadau cyson i gynnwys UCDau mewn gweithgareddau cymorth a her.

4 Yn yr achosion gorau, mae'r UCD yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer addysgu disgyblion ag ymddygiad heriol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio arbenigedd staff UCDau i roi cymorth i ddisgyblion unigol mewn ysgolion prif ffrwd yn ogystal â chyngor a hyfforddiant i staff prif ffrwd.

5 Mae defnyddio symudiadau rheoledig fel strategaeth i gadw disgyblion mewn addysg

[1] Mae continwwm o ddarpariaeth yng nghyd-destun yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ddulliau graddedig ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n ei chael yn anodd aros mewn addysg prif ffrwd. Mae cam cyntaf y continwwm hwn yn debygol o gynnwys strategaethau ysgol gyfan (er enghraifft mentora, defnyddio ystafelloedd cynhwysiant neu ddefnyddio dulliau adferol) a chymorth unigol neu grŵp ar gyfer disgyblion sy'n dechrau dangos anawsterau fel ymddygiad heriol neu bryder. Gyda chymorth priodol, bydd llawer o ddisgyblion yn goresgyn eu hanawsterau heb fod angen rhagor o ymyrraeth arnynt. Pan fydd disgyblion yn parhau i gael anawsterau, efallai y bydd angen cymorth allanol arnynt, er enghraifft gan arbenigwr ymddygiad, seicolegydd addysg neu'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS). Dim ond pan na fydd y strategaethau hyn yn llwyddo y dylid ystyried disgybl ar gyfer cam nesaf y continwwm; hynny yw, anfon y disgybl i leoliad y tu allan i'r ysgol, fel UCD.

amser llawn yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Dim ond rhai awdurdodau lleol sydd â phanel symudiadau rheoledig sefydledig sy'n cynnwys staff awdurdod lleol, ysgol ac UCD.

6 Yn yr UCDau mwyaf effeithiol, mae athrawon â gofal yn arweinwyr a rheolwyr medrus, ac mae gan staff arbenigedd a phrofiad priodol mewn addysgu a dysgu yn ogystal â rheoli ymddygiad.

7 Pan fydd pwyllgorau rheoli UCDau yn effeithiol, mae ganddynt gynrychiolaeth o ystod eang o randdeiliaid, sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Yn y pwyllgorau hyn, mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o gryfderau'r UCD a'r meysydd y mae angen eu datblygu ac maent yn darparu cymorth a her gadarn.

8 Mae ansawdd yr addysg a ddarperir gan UCDau yn amrywio'n sylweddol. Lle ceir arfer effeithiol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ac ymddygiad. Maent yn rhoi polisïau ymddygiad clir ar waith sy'n canolbwyntio ar ganmol a gwobrwyo ymddygiad da. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bolisi'r UCD ar gyfer gwobrau a chosbau ac mae pob un o'r staff yn cymhwyso'r polisi'n gyson.

9 Pan fydd UCDau yn helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad yn effeithiol, mae gan ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) clir gyda thargedau priodol. Mae staff yn cynnwys disgyblion mewn gosod ac adolygu'r targedau hyn, sy'n helpu disgyblion i ddeall eu hymddygiad a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn annog disgyblion i fynegi eu teimladau a thrafod eu hymddygiad gyda'i gilydd a gyda staff.

10 Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae ystod y pynciau a gynigir yn y cwricwlwm yn amrywio'n sylweddol rhwng UCDau. Lle ceir arfer dda, mae UCDau yn cynnig ystod eang o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chyfleoedd dysgu. Maent hefyd yn cynnig pynciau galwedigaethol fel adeiladu, cynnal a chadw beiciau, gwaith saer, gwallt a harddwch a bwyd a hylendid. Mae ystod yr opsiynau ac elfen o ddewis yn ffactorau pwysig o ran ymgysylltu â disgyblion sydd wedi colli diddordeb mewn addysg yn y gorffennol ac yn eu helpu i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

11 Ar eu pen eu hunain, mae UCDau yn annhebygol o allu darparu cymaint o opsiynau ag ysgolion. I gynyddu ystod yr opsiynau sydd ar gael, mae rhai UCDau yn cysylltu'n dda â darparwyr eraill, er enghraifft ysgolion, colegau addysg bellach (AB) a darparwyr hyfforddiant ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion lwybrau dysgu cynlluniedig sy'n bodloni eu hanghenion unigol ac yn ennyn eu diddordeb. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymestyn y cyfleoedd cwricwlwm ar gyfer disgyblion UCD.

12 Yn yr UCDau lle mae disgyblion yn gwneud y cynnydd mwyaf, mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o lefelau llythrennedd a rhifedd y disgyblion a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn cynllunio ymyriadau priodol sy'n gwella safonau disgyblion. Megis dechrau datblygu y mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) mewn llawer o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, yn rhannol am na chafodd pob un o'r UCDau eu cynnwys mewn hyfforddiant neu gymorth gan yr awdurdod lleol pan gyflwynwyd y FfLlRh i ddechrau. Yn fwy diweddar, mae staff UCDau wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn mentrau a hyfforddiant llythrennedd a rhifedd.

13 Mae lefel arbenigedd staff i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn amrywio rhwng UCDau. Yn yr achosion gorau, caiff staff hyfforddiant rheolaidd o ansawdd uchel sy'n eu helpu i gefnogi disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith, anhwylder y sbectrwm awtistig, dyslecsia ac anghenion dysgu eraill.

**Arfer dda mewn ysgolion**

14 Mae ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau gwahanol i leihau nifer y gwaharddiadau ac atal disgyblion rhag mynd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cael:

- rhaglenni dysgu pwrpasol sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion disgyblion unigol
- dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad
- systemau ar gyfer nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio a rhoi ymyrraeth briodol ac amserol ar waith
- cydweithio agos ag asiantaethau eraill i ddarparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd

15 Mae pob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu rhaglenni i fodloni anghenion disgyblion unigol. Yn gyffredinol, mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys ffocws ar opsiynau galwedigaethol a chymwysterau perthnasol sy'n paratoi disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol. Maent hefyd yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau yn yr ysgol ac oddi ar y safle.

16 Yn genedlaethol, mae cyfradd y gwaharddiadau wedi gostwng dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Pan fydd ysgolion yn fwyaf effeithiol o ran lleihau gwaharddiadau a mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn yr ysgol, maent yn mabwysiadu dull ysgol gyfan cyson o reoli ymddygiad disgyblion, er enghraifft trwy ddefnyddio dulliau adferol.

17 Mae amrywiaeth o anawsterau gan lawer o ddisgyblion nad ydynt yn gallu cynnal lleoliadau prif ffrwd ac yn treulio amser mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r anawsterau hyn yn cynnwys sefyllfaoedd teuluol a phroblemau personol heriol. Nid yw medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion eraill wedi'u datblygu ddigon neu mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol eraill. Pan fydd gan ysgolion systemau effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion, sy'n nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar, gallant roi ymyrraeth briodol ar waith sy'n cadw disgyblion yn y brif ffrwd.

18 Mae gweithio agos rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill, er enghraifft iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gwirfoddol, yn helpu i sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio, a'u teuluoedd, yn cael cymorth priodol ac amserol.

## Argymhellion

Dylai awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau:

A1 gael strategaeth y cytunwyd arni'n lleol i gefnogi'r holl ddisgyblion sy'n agored i niwed fel eu bod yn aros mewn addysg amser llawn

A2 nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar a rhoi ymyriadau priodol ac amserol ar waith

A3 cydweithio i gynyddu ystod yr opsiynau a'r profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol

Dylai awdurdodau lleol:

A4 sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid ddealltwriaeth glir o rôl UCDau a mathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn continwwm o ddarpariaeth, a bod y darpariaethau hyn yn cynnwys meini prawf mynediad ac ymadael clir

A5 penodi staff UCD sydd â phrofiad ac arbenigedd priodol mewn arweinyddiaeth, addysgu a dysgu yn ogystal â rheoli ymddygiad

A6 sicrhau bod pob un o staff UCDau yn cael yr un cyfleoedd hyfforddi a datblygu â staff mewn ysgolion prif ffrwd

A7 gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddarparu cymorth a her gadarn i reolwyr a phwyllgorau rheoli UCD

Dylai Llywodraeth Cymru:

A8 ddarparu arweiniad fframwaith ar rôl UCDau fel rhan o gontinwwm o ddarpariaeth

A9 ystyried cyflwyno cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer athrawon sydd â gofal am UCDau

A10 sicrhau bod staff UCDau yn elwa ar strategaethau cenedlaethol i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth mewn addysg

## Partneriaethau strategol rhwng awdurdodau lleol, ysgolion prif ffrwd ac UCDau

19 Lle ceir arfer orau, er enghraifft yng Nghyngor Ceredigion a Chyngor Dinas Casnewydd, mae awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ar lefel strategol i fodloni anghenion disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio a sicrhau eu bod yn aros mewn addysg amser llawn. Yn yr awdurdodau lleol hyn, ceir strategaeth glir a 'chontinwwm' o ddarpariaeth i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r continwwm hwn yn cynnwys strategaethau yn yr ysgol, cymorth gan arbenigwyr allanol a lleoli mewn UCDau neu fathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Strategaeth ddefnyddiol arall yw'r 'cwricwlwm amgen', sef cwricwlwm wedi'i deilwra ar gyfer disgyblion unigol sy'n ei chael yn anodd manteisio ar y cwricwlwm prif ffrwd. Gallai gynnwys cyrsiau sy'n cael eu cyflwyno gan ystod o sefydliadau y tu allan i'r ysgol, er enghraifft darparwyr hyfforddiant, colegau neu'r trydydd sector.

20 Mae'r awdurdodau hyn yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a rôl yr UCD fel rhan o'r continwwm hwn o ddarpariaeth. Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'r egwyddor mai ymyrraeth dros y tymor byr yw darpariaeth UCD, lle bo modd, ac y bydd disgyblion yn dychwelyd i addysg prif ffrwd neu'n symud ymlaen i ddarpariaeth briodol arall, er enghraifft coleg neu leoliadau gwaith. Dim ond pan fydd ysgolion prif ffrwd wedi rhoi cynnig ar bob ymyrraeth bosibl y mae'r awdurdodau lleol hyn yn rhoi disgyblion yn yr UCD.

21 Yn yr achosion gorau, defnyddir yr UCD fel canolfan ragoriaeth mewn perthynas â rheoli disgyblion ag ymddygiad heriol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio arbenigedd staff UCD i ddarparu cymorth i ddisgyblion unigol mewn ysgolion prif ffrwd yn ogystal â chyngor a hyfforddiant i staff prif ffrwd.

22 Pan fydd dull strategol effeithiol ar gyfer ymdrin â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, mae gan awdurdodau bolisïau a gweithdrefnau clir, gan gynnwys prosesau cyfeirio sefydledig, meini prawf mynediad ac ymadael cadarn a strategaethau ailintegreiddio effeithiol. Maent yn nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn gynnar ac yn rhoi cymorth priodol iddynt. Maent yn rhoi'r disgyblion mewn UCD neu ddarpariaeth arall ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn brydlon i sicrhau nad ydynt yn colli allan ar addysg. Mae'r awdurdodau hyn yn monitro darpariaeth yn rheolaidd ac yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol i fodloni anghenion disgyblion ar draws yr awdurdod.

23 Mae amrywiad yn ansawdd pwyllgorau rheoli UCDau. Pan fyddant yn effeithiol, mae pwyllgorau rheoli yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o randdeiliaid sydd â gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Yn y pwyllgorau hyn, mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o gryfderau'r UCD a'r meysydd i'w datblygu ac maent yn darparu cymorth a her gadarn. Yn sgil yr arolygiad o UCD Ceredigion yn 2013, nodwyd arfer sy'n arwain y sector yng ngwaith y pwyllgor rheoli. <u>Astudiaeth achos arfer orau Ceredigion</u>

24 Mae arolygiadau diweddar o UCDau ac ymweliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r arolwg hwn yn dangos bod llawer o awdurdodau lleol yn datblygu systemau a meini prawf mwy cadarn ar gyfer rhoi disgyblion mewn UCDau. Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu data perthnasol ar gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Yr hyn sy'n bwysig yw ei bod yn ofynnol i ysgolion ddangos eu bod wedi darparu ymyrraeth briodol ac wedi archwilio pob llwybr cyn gwneud cyfeiriad am leoli disgybl mewn UCD.

25 Adolygodd Cyngor Ceredigion y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar draws yr awdurdod lleol ar lefel strategol. Fe wnaeth hyn gynnwys archwilio diben yr UCD a rôl ysgolion mewn cefnogi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu'r rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol.

**Astudiaeth achos 1: Cyngor Ceredigion – defnyddio dull strategol**

**Cyd-destun**

Cynhaliodd yr awdurdod lleol adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn 2009. Ar yr adeg hon, roedd cyfradd y gwaharddiadau yn uchel ac roedd gormod o ddisgyblion yn y ddarpariaeth UCD yng nghyfnod allweddol 4. Yn ychwanegol, cydnabu'r awdurdod lleol fod angen lleihau lleoliadau drud y tu allan i'r sir.

**Strategaeth**

Cydnabuwyd ar lefel strategol fod angen newid mewn diwylliant. Roedd yn bwysig bod presenoldeb ac ymddygiad yn dod yn rhan o'r agenda ehangach ar gyfer gwella ysgolion.

Yn dilyn yr adolygiad, ad-drefnodd yr awdurdod lleol ei ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ymddygiad heriol. Dyma oedd y prif nodau:

- datblygu gallu ysgolion i reoli ymddygiad yn fwy effeithiol
- canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a meithrin cysylltiadau â darparwyr cyn-ysgol
- cyflwyno canolfannau Hafan[2] ac Encil[3] mewn ysgolion uwchradd
- datblygu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion
- datblygu gwasanaeth cymorth peripatetig cryf i ysgolion
- ailstrwythuro'r portffolio UCDau
- lleihau cyfradd y gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol
- lleihau nifer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod

[2] Hafan yw'r term a ddefnyddir yn ysgolion Ceredigion i ddisgrifio 'canolfan gynhwysiant', lle gall disgyblion ag ystod eang o anghenion gael cymorth.
[3] Encil yw'r term a ddefnyddir yn ysgolion Ceredigion i ddisgrifio cyfleuster sy'n cefnogi disgyblion ag anawsterau ymddygiadol ac yn gwasanaethu fel dewis arall yn lle gwahardd disgyblion.

O ganlyniad i'r newidiadau, mae gan Gyngor Ceredigion gontinwwm clir o ddarpariaeth erbyn hyn, gan gynnwys Hafan ac Encil, y gwasanaeth cymorth ymddygiad a ddefnyddir yn ganolog, yr UCD a'r cwricwlwm amgen.

a) Hafan ac Encil

Sefydlodd yr awdurdod lleol ystafelloedd Hafan ac Encil ym mhob ysgol uwchradd. Mae'r Encil yn gwasanaethu fel dewis arall yn lle gwahardd disgybl ac mae'n ffordd o gadw disgyblion yn yr ysgol lle gallant barhau i ddysgu. Mae disgyblion fel arfer yn treulio cyfnod byr o hyd at dridiau yn yr Encil. Mae Hafan yn cefnogi'r disgyblion sy'n fwy agored i niwed. Byddai rhai o'r disgyblion hyn wedi cael gwersi y tu allan i leoliad yr ysgol yn y gorffennol. Mae rheolwr cynhwysiant yn goruchwylio'r Hafan ym mhob ysgol. Mae'n gwasanaethu fel canolfan ar gyfer cyfarfodydd amlasiantaethol a chymorth unigol fel cwnsela.

b) Gwasanaeth cymorth ymddygiad

Un o brif nodau'r awdurdod lleol oedd meithrin gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag ymddygiad heriol. Mae'r gwasanaeth cymorth ymddygiad yn darparu ystod o hyfforddiant ar gyfer ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys hyfforddiant blynyddol ar gyfer tua 40 o gynorthwywyr cymorth dysgu (CCD) yn gweithio gyda disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae tîm o gynorthwywyr cymorth cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (CCCEY) yn darparu cymorth ar gyfer disgyblion unigol yn ogystal â chyngor ar gyfer staff.

c) UCD

Mae'r UCD yn darparu ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, 3 a 4. Mae wedi'i lleoli ar dri safle, ac yn cael ei goruchwylio gan un athro sydd â gofal. Mae'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 wedi'i lleoli mewn ysgol gynradd. Mae gan bob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 gynlluniau clir ar gyfer ailintegreiddio i sefydliad addysgol addas.

Mae llwybr dilyniant clir ar gyfer disgyblion sy'n mynd i'r UCD:

Prif ffrwd > Hafan/Encil >UCD

Yn yr un modd, pan fo'n briodol, gall disgyblion sy'n gadael yr UCD fanteisio ar ddarpariaeth Hafan cyn dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd amser llawn. Mae hyn yn golygu bod gan ddisgyblion fwy o gyfle i ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus.

UCD > Hafan > Prif ffrwd

ch) Cwricwlwm amgen

Mae disgyblion sy'n dilyn y cwricwlwm amgen yn cael dewis o ddarpariaeth a gyflwynir trwy'r fframwaith darparwr allanol, yn ogystal ag opsiwn i fynychu lleoliadau profiad gwaith parhaus. Cânt gyfle i ennill ystod o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau BTEC a CGCau.

**Deilliannau**

O ganlyniad i'r ailstrwythuro:

- Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol mewn ysgolion er 2008-2009
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy o 45 yn 2010-2011 i ddim un yn 2011-2012; nid oedd digon i'w cofnodi yn 2012-2013
- Mae'r gyfradd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi bod yr uchaf yng Nghymru am y pedair blynedd ddiwethaf
- Canran yr ymadawyr Blwyddyn 11 yng Ngheredigion sy'n dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oedd yr isaf yng Nghymru yn 2013 a'r isaf ond un yn 2012

26 Yn 2011, lluniwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar 'Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol'. Mae'r ddogfen yn diffinio symudiad rheoledig fel a ganlyn:

> trosglwyddo disgybl o un ysgol i'r llall fel rhan o gynllun gofalus' sydd 'wedi'i gynllunio i helpu'r disgybl i symud ymlaen a chychwyn o'r newydd', (Llywodraeth Cymru, 2011, tud. 3).

27 Gall symudiad rheoledig fod â rôl bwysig o ran helpu disgyblion i aros mewn addysg prif ffrwd a'u hatal rhag mynd i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

28 Mae defnyddio symudiadau rheoledig fel strategaeth i gadw disgyblion mewn addysg amser llawn yn amrywio o un awdurdod i'r llall. Dim ond rhai awdurdodau lleol sydd â phaneli symudiadau rheoledig sefydledig sy'n cynnwys staff awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau. Mewn achosion eraill, caiff symudiadau rheoledig eu trefnu rhwng ysgolion, heb lawer o ymglymiad gan yr awdurdod lleol.

29 Mae nodweddion allweddol sy'n gwneud symudiad rheoledig yn llwyddiannus yn cynnwys:

- nodi'n gynnar, er mwyn gallu nodi disgybl cyn i leoliad fethu'n gyfan gwbl
- cynllunio gofalus i sicrhau bod y symudiad yn briodol ac yn gallu bodloni anghenion y disgybl unigol o ran y cwricwlwm, cymorth a phellterau teithio
- rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y ddwy ysgol
- cynnwys y disgybl a'r rhieni wrth benderfynu ar ysgol newydd
- monitro ac adolygu'r lleoliad newydd yn drylwyr

30 Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn sicrhau ei fod yn nodi disgyblion unigol sydd mewn perygl yn gynnar a bod yr awdurdod yn darparu ymyriadau priodol i ddisgyblion trwy ei banel symudiadau rheoledig.

**Astudiaeth achos 2: Cyngor Dinas Casnewydd – defnyddio'r panel symudiadau rheoledig**

**Cyd-destun**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithredu'r broses symudiadau rheoledig ar ran ysgolion uwchradd er 2008-2009. Er Medi 2010, mae uwch arweinwyr o bob ysgol wedi cymryd awenau'r panel, gyda chynrychiolwyr ysgol yn gweithredu fel cadeirydd ac is-gadeirydd. Cyn sefydlu'r panel, trefnwyd symudiadau rhwng ysgolion ar sail unigol yn hytrach na thrwy ymgysylltiad pob ysgol. Roedd yr UCD yn dod yn lleoliad hirdymor ar gyfer rhai disgyblion hefyd yn hytrach na darpariaeth tymor byr.

**Strategaeth**

Symudiad rheoledig yw'r olaf mewn cyfres o ymyriadau y gellir eu defnyddio i atal gwaharddiad parhaol. Ystyrir symudiadau rheoledig pan gredir y byddai cychwyn o'r newydd yn fuddiol i'r disgybl. Cyn ystyried symudiad rheoledig, mae'n hanfodol bod ysgolion yn gallu dangos eu bod wedi archwilio a defnyddio'r holl strategaethau sydd ar gael iddynt ac yn gallu darparu tystiolaeth bod llwyddiant y rhain wedi bod yn gyfyngedig, os cafwyd llwyddiant o gwbl.

Nid yw pob un o'r disgyblion sy'n cael eu trafod yn y panel yn symud i ysgol arall. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn mynd i'r UCD (Canolfan Gyflawni'r Bont (The Bridge Achievement Centre)) am gyfnod cyfyngedig nes dod o hyd i leoliad hirdymor. Rhan bwysig o'r broses yw bod nifer o wahanol opsiynau'n cael eu hystyried yn y panel symudiadau rheoledig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymorth i'r disgybl yn ei ysgol prif ffrwd
- ymyrraeth yn yr ysgol
- lleoliad tymor byr mewn ysgol arall (weithiau dim ond ychydig ddyddiau)
- ymyrraeth UCD tymor byr
- cyfnod o chwe wythnos yng nghanolfan asesu'r UCD (sy'n cael ei hadnabod fel Canolfan Gyflawni'r Bont – gweler astudiaeth achos 9)
- symudiad wedi'i reoli i ysgol arall

**Camau gweithredu**

Mae aelod o uwch dîm arweinyddiaeth pob ysgol uwchradd yn mynychu cyfarfodydd y panel, sy'n cael eu cynnal bob wythnos. Mae gan yr uwch arweinydd ar gyfer pob ysgol y grym i wneud penderfyniadau ynghylch derbyn. Mae hyn yn sicrhau bod achosion yn cael eu prosesu'n effeithlon. Er enghraifft, gallai penderfyniad sy'n cael ei wneud ar ddydd Mercher gael ei roi ar waith erbyn y dydd Gwener.

Yn ogystal ag arweinwyr ysgol a phennaeth yr UCD, mae ystod eang o gynrychiolwyr o'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill yn mynychu'r panel amlasiantaethol, er enghraifft y gwasanaeth lles addysg, y gwasanaeth troseddau ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol.

**Deilliannau**

Er bod cyfradd y gwaharddiadau parhaol yn uchel o hyd, mae'r panel wedi helpu i

leihau'r nifer. Yn ychwanegol, mae'n sicrhau bod darpariaeth amgen yn cael ei darparu i ddisgyblion yn brydlon.

Yn ystod 2013-2014:

- cafodd wyth disgybl eu gwahardd yn barhaol yn 2013-2014 o gymharu ag un deg pedwar disgybl yn 2012-2013
- symudodd pedwar o'r disgyblion ymlaen i ysgolion prif ffrwd eraill, a symudodd y gweddill i'r UCD; cafodd pob un ohonynt eu lleoli'n brydlon
- cafodd 26 o ddisgyblion eu symud trwy'r panel, gan gynnwys y rhai a oedd wedi cael eu gwahardd yn barhaol
- cafodd 25 o ddisgyblion ymyrraeth tymor byr yn yr UCD

31 Pan fydd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd UCDau fel rhan o gontinwwm o ddarpariaeth, maent yn sicrhau bod UCDau yn cynnig adnoddau da. Mae hyn yn cynnwys staffio, adeiladau ac offer. Yn hanesyddol, mae safon adeiladau UCDau wedi tueddu i fod yn wael, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar les a morâl staff a disgyblion a gallu'r UCD i ddarparu cwricwlwm priodol. Cymerwyd camau gan Gyngor Dinas Casnewydd i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn deilliannau disgyblion a darpariaeth yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont.

**Astudiaeth achos 3: Canolfan Gyflawni'r Bont (Bridge Achievement Centre) – symud i adeilad newydd**

**Cyd-destun**

Darpariaeth ar gyfer disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 sy'n cael anawsterau ag ymddygiad, ymddieithrio o'r ysgol ac yn wynebu rhwystrau eraill rhag dysgu yw Canolfan Gyflawni'r Bont, a oedd yn cael ei hadnabod gynt fel Canolfan Cylchdroi.

Yn wreiddiol, roedd y ganolfan wedi'i lleoli ar dri safle a oedd yn ymestyn gallu staff ac yn atal darpariaeth ddi-dor. Nid oedd yr adeiladau hyn yn darparu amgylchedd a oedd yn ffafriol i ddysgu a lles cadarnhaol. Fodd bynnag, ar ddechrau 2013, nodwyd adeilad mwy priodol a chytunwyd y dylai'r UCD symud i'r safle newydd hwn.

**Strategaeth**

Roedd nodau symud i un safle ag adeilad newydd yn cynnwys:

- gwella gallu'r rheolwyr i arwain y ganolfan a sicrhau gwelliant ym mhob maes allweddol mewn modd cyson
- datblygu amgylchedd dysgu diogel a saff ar gyfer rhai o ddisgyblion mwyaf anghenus Casnewydd
- annog plant a'u rhieni a'u gofalwyr i werthfawrogi amser yn yr UCD a'i gweld fel ymyrraeth werth chweil ac nid 'man gwaredu'
- ymestyn y cwricwlwm a defnyddio athrawon arbenigol mewn pynciau craidd
- sicrhau bod staff wedi codi eu disgwyliadau o gynnydd a chyflawniad disgyblion
- cynyddu hyder ysgolion yng ngwaith y ganolfan

**Camau gweithredu**

Bu staff a disgyblion yn cymryd rhan o ddechrau'r prosiect, gan weithio'n agos â'r awdurdod lleol i nodi beth roedd ei angen yn yr adeilad yn unol â'r cwricwlwm sydd ei angen ar y disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar gwricwlwm yn seiliedig ar fedrau i gynyddu ymgysylltiad. Mae'r adeilad newydd yn cynnwys cegin bwrpasol ar gyfer addysgu medrau bywyd, labordy gwyddoniaeth, ystafell amlbwrpas ar gyfer gwaith campfa ac amser hamdden a gweithdy dylunio a thechnoleg ac adeiladu. Cafodd disgyblion eu cynnwys mewn dewis lliwiau a dylunio. Fe wnaethant ymweld â'r safle'n rheolaidd i dynnu lluniau o gynnydd. Cymerodd y disgyblion ran mewn cystadleuaeth dylunio logo ac mae'r darn buddugol yn cael ei arddangos ar yr adeilad, ar waith papur a gwisg y staff.

Tra oedd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, aeth rheolwyr ati i ail-farchnata'r UCD ymhlith disgyblion, rhieni, ysgolion ac asiantaethau allanol i geisio newid agweddau rhanddeiliaid. Cafodd yr UCD ei hailenwi fel Canolfan Gyflawni'r Bont (Bridge Achievement Centre), i adlewyrchu'r syniad mai pont i ddarpariaeth prif ffrwd neu gyflogaeth yw'r UCD, yn ogystal â'r ffaith fod y ganolfan wedi'i lleoli ger pont gludo eiconig Casnewydd.

Agorwyd Canolfan Gyflawni'r Bont i ddisgyblion ym mis Ebrill 2014.

**Deilliannau**

Mae'r adeilad newydd wedi cael effaith sylweddol, fel y dangosir yn safbwyntiau disgyblion a staff. Er enghraifft:

- mae morâl staff wedi gwella'n sylweddol
- mae athrawon a chynorthwywyr addysgu (CA) yn ymfalchïo yn eu hystafelloedd dosbarth, caiff arddangosfeydd eu cynnal yn dda ac maent yn adlewyrchu dysgu cyfredol
- mae'r ganolfan yn cynnig cwricwlwm llawer ehangach, gan gynnwys chwaraeon ac adeiladu BTEC, ffotograffiaeth, arlwyo/medrau bywyd, cyrsiau rhagflas gwallt a harddwch, garddio a gofal plant
- mae presenoldeb disgyblion wedi gwella naw pwynt canran dros y flwyddyn ddiwethaf
- bu gostyngiad yn y difrod i'r adeilad
- disgynnodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol dros 50% yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014 o gymharu â'r un cyfnod yn 2013.

32 Lle ceir arfer dda, mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod athrawon sydd â gofal am UCD a phenaethiaid yn meddu ar fedrau arwain a rheoli rhagorol a bod athrawon sy'n gweithio mewn UCDau nid yn unig yn fedrus mewn rheoli ymddygiad ond yn athrawon medrus hefyd.

33 Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn cymryd rhan mewn mentrau awdurdod lleol ac yn y cyfleoedd datblygiad proffesiynol sydd ar gael i gydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pwysig fel newidiadau yn y cwricwlwm a'r

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, pan na fydd staff UCDau yn cael y cyfleoedd hyn, maent yn teimlo'n ynysig a bod dim cefnogaeth ar gael iddynt.

34 Mae amrywiad sylweddol mewn trefniadau cymorth rhanbarthol ar gyfer UCDau. Caiff lleiafrif o UCDau gymorth a her reolaidd gan ymgynghorwyr her ac arbenigwyr awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Ceir un enghraifft o gymorth a her effeithiol yn Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen.

**Astudiaeth achos 4: Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen – cynnwys yr ymgynghorydd her yn y daith i wella**

**Cyd-destun**

Yn yr arolygiad o Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen yn 2011, barnodd arolygwyr fod perfformiad a rhagolygon gwella presennol yn ddigonol a rhoddodd yr UCD yn y categori angen gwelliant sylweddol. Ers hynny, mae'r UCD wedi bod ar daith i wella. Yn 2013, tynnodd Estyn yr UCD o'r categori gweithgarwch dilynol, gan ei fod wedi gwneud cynnydd digonol yn unol â'r argymhellion. Yn yr adroddiad monitro, cydnabu arolygwyr welliannau mewn hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ogystal â defnyddio data i lywio cynllunio.

**Strategaeth**

Yn dilyn yr arolygiad, cydnabu'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol fod angen cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr yn yr UCD. Mae hyn wedi cynnwys cymorth parhaus gan ymgynghorydd her, sydd wedi gweithio'n agos â'r pennaeth i wneud gwelliannau ar lefel strategol.

**Camau gweithredu**

Mae'r ymgynghorydd her yn darparu cymorth effeithiol a her gadarn. Mae'n mynychu cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli a'r pwyllgor rheoli'n rheolaidd. Mae wedi cefnogi'r UCD mewn prosesau sicrhau ansawdd, er enghraifft trwy sefydlu system arsylwadau gwersi, a chynnal arsylwadau ar y cyd ag aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae rhwydwaith UCD yn cyfarfod bob hanner tymor, wedi'i hwyluso gan y consortiwm rhanbarthol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cymorth gwerthfawr i reolwyr mewn perthynas â materion fel defnyddio grantiau, newidiadau i'r cwricwlwm a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Deilliannau**

- Yn 2013, oherwydd y cynnydd a wnaed, tynnodd Estyn Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen o'r categori gweithgarwch dilynol
- Cynyddodd canran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster TGAU Saesneg o 28% yn 2011-2012 i 71% yn 2013-2014
- Cynyddodd canran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster TGAU mathemateg o 36% yn 2011-2012 i 62% yn 2013-2014
- Cynyddodd canran y gwersi y barnodd yr ysgol eu bod yn dda neu'n well o 33%

yn 2011-2012 i 76% yn 2013-2014
- Yn 2011-2012, roedd yr UCD yn cynnig cyrsiau TGAU mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn unig; erbyn 2013-2014, roedd ystod y pynciau achrededig a gynigir wedi cynyddu, i gynnwys cyrsiau TGAU mewn addysg bersonol a chymdeithasol, celf ac astudiaethau crefyddol, yn ogystal â BTEC mewn coginio

## Arfer dda mewn UCDau

35 Er bod ansawdd yr addysg a ddarperir gan UCDau yn amrywio gormod ledled Cymru, mae tystiolaeth arolygu a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r arolwg hwn yn darparu enghreifftiau o arfer dda mewn perthynas â gwahanol agweddau ar ddarpariaeth UCD. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys:

- strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad
- cwricwlwm sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol
- ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac ymyrraeth amserol
- strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio

### Strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad

36 Lle ceir arfer dda, mae gan UCDau ddisgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad ac ymddygiad. Mae nifer o UCDau wedi newid eu henwau yn ddiweddar i adlewyrchu'r ethos hwn. Er enghraifft, newidiodd Cyngor Dinas Casnewydd enw ei UCD o UCD Cylchdroi i Ganolfan Gyflawni'r Bont, i adlewyrchu'r syniad fod yr UCD yn bont tuag at ddyfodol gwell. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol eraill wedi rhoi enwau i'r UCDau sy'n adlewyrchu'r disgwyliad y dylai disgyblion gychwyn o'r newydd a chyflawni, er enghraifft Ymlaen, Camu Ymlaen (Step Ahead), Canolfan Sgiliau Cychwyn Newydd (New Start Skills Centre) a Chanolfan Enfys (Rainbow Centre).

37 Mae gan fwyafrif o UCDau bolisïau ymddygiad cadarnhaol a chlir sy'n canolbwyntio ar ganmol a gwobrwyo disgyblion. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn cymhwyso gwobrau a chosbau yn gyson ac mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut y dylent ymddwyn. Yng Nghanolfan Addysg Tai, mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau i helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad eu hunain a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Gweler Adroddiad arolygu Canolfan Addysg Tai

38 Mewn UCDau effeithiol, mae staff yn cofnodi achosion ymddygiad yn fanwl ac yn dadansoddi'r data hwn yn drylwyr er mwyn nodi sbardunau am ymddygiad gwael a darparu ymyrraeth briodol.

39 Pan fydd UCDau yn helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad yn effeithiol, mae gan ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau) clir gyda thargedau priodol. Mae staff yn cynnwys disgyblion yn dda mewn gosod ac adolygu'r targedau hyn yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall eu hymddygiad a chymryd

cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn annog disgyblion i fynegi eu teimladau a thrafod eu hymddygiad gyda'i gilydd a gyda staff. Er enghraifft, yn Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau agweddau cymdeithasol ac emosiynol dyddiol ar ddysgu (SEAL) ac yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont, mae staff a disgyblion yn defnyddio arfer adferol[4] yn effeithiol i ddatrys gwrthdaro.

40 Mewn rhai o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, roedd disgyblion yn treulio rhan o'r wythnos mewn ysgol prif ffrwd. Yn yr achosion hyn, mae staff yr UCD a'r ysgol yn cysylltu'n agos i sicrhau cysondeb ar draws y darparwyr gwahanol mewn perthynas â rheoli ymddygiad. Yng Ngheredigion, mae cynorthwywyr cymorth cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn gweithio'n agos gydag ysgolion a'r UCD i sicrhau bod dull cyson o reoli ymddygiad ar draws yr holl leoliadau. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella'u hymddygiad ac yn hwyluso ailintegreiddio llwyddiannus.

41 Yn yr UCDau gorau, mae'r dull cyson o reoli ymddygiad yn ymestyn i oedolion eraill sy'n rhan o fywydau'r disgyblion. Er enghraifft, yng Nghanolfan Addysg Tai, mae cydweithio agos gyda gyrwyr tacsi a hebryngwyr yn helpu disgyblion i wella'u hymddygiad nid yn unig yn ystod eu taith i'r UCD ac oddi yno ond yn ystod y diwrnod ysgol hefyd.

**Astudiaeth achos 5: Canolfan Addysg Tai – defnyddio "system pasport tacsi"**

**Cyd-destun**

Mae Canolfan Addysg Tai yn darparu addysg ar gyfer tua 60 o ddisgyblion rhwng pedair a deuddeg oed sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

**Strategaeth**

Cyflwynodd yr UCD y system pasport tacsi i wella ymddygiad disgyblion mewn tacsis. Mae ymddygiad heriol yn achosi perygl o ran iechyd a diogelwch i ddisgyblion, gyrwyr a hebryngwyr. Yn ychwanegol, pan gaiff ymddygiad heriol ei ganiatáu ar deithiau i'r ysgol ac oddi yno, mae hyn yn aml yn parhau pan fydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol neu gartref.

Mae disgyblion sy'n ymddwyn yn briodol yn ystod cludiant yn cael pasport i deithio, sy'n caniatáu iddynt deithio i'r ganolfan hamdden, er enghraifft. Nid yw disgyblion sy'n ymddwyn yn amhriodol yn cymryd rhan mewn gwibdeithiau am yr wythnos honno nes eu bod wedi ennill eu pasport i deithio.

Mewn achosion difrifol, mae'r gyrrwr neu'r hebryngwr yn darparu adroddiad ysgrifenedig er sylw'r pennaeth a'r adran gludiant, a fydd yn cymryd camau priodol.

**Camau gweithredu**

Wedi i ddisgyblion gyrraedd yr UCD, maent yn aros yn y tacsis nes ei bod yn amser

[4] Mae arfer adferol (cyfeirir at hyn fel dulliau adferol hefyd) yn canolbwyntio ar ddatrys gwrthdaro mor gynnar ag y bo modd, gan geisio osgoi bai a chefnogi pobl i gymryd cyfrifoldeb am ddod o hyd i ateb adeiladol i broblemau. Mae'n annog cyfathrebu effeithio a gweithio tuag at ddeilliannau cadarnhaol.

mynd i mewn. Yr hiraf y mae'n rhaid i ddisgyblion aros, y mwyaf tebygol yw hi y bydd hyn yn achosi digwyddiad, felly mae'n bwysig bod tacsis yn cyrraedd yn brydlon ac nid yn rhy gynnar.

Mae disgyblion yn mynd i'r ysgol gyda'u hebryngwyr. Maent yn mynd at y swyddogion cyswllt tacsis sy'n rhoi sgôr i ddisgyblion o 0-2 am y daith, ac mae staff yn cofnodi hyn ar daflen arfarnu a chofrestr y dosbarth.

Mae disgyblion yn gwneud hunanasesiad dyddiol yn erbyn y meini prawf gosod, sy'n cynnwys y cwestiynau canlynol: A wnes i wisgo fy ngwregys? A wnes i ddefnyddio geiriau caredig, dwylo a thraed? A wnes i ddilyn yr holl gyfarwyddiadau? Mae hunanasesu yn fedr pwysig ac mae'r disgyblion yn onest wrth gwblhau'r ymarfer hwn ar y cyfan.

Mae'r UCD wedi datblygu system olrhain ddigidol sy'n galluogi staff i olrhain cynnydd disgyblion ar draws y flwyddyn ysgol. Mae'r data hwn yn werthfawr gan ei fod yn galluogi'r UCD i nodi pan fydd ymddygiad yn dechrau dirywio neu wella.

**Deilliannau**

Mae cyflwyno'r system pasport tacsis wedi arwain at y canlynol:

- Mae cysylltiadau cryfach rhwng gyrwyr tacsis a'r ysgol
- Mae dros 85% o yrwyr tacsis yn ystyried bod y strategaeth yn fuddiol o ran gwella ymddygiad
- Mae disgyblion wedi datblygu medrau hunanasesu a gallant fyfyrio ar eu hymddygiad
- Mae ymddygiad ar gludiant wedi gwella ar gyfer hyd at 90% o'r disgyblion
- Mae adran gludiant yr awdurdod lleol wedi dweud bod y system hon yn ddefnyddiol, yn enwedig wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ysgol a chynnydd disgyblion, ac wrth gynllunio ar gyfer rhoi disgyblion mewn tacsis penodol

42 Mae rhai UCDau yn hysbysu rhieni am y strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol a ddefnyddir yn ystod y diwrnod ysgol hefyd ac yn cynorthwyo rhieni i ddefnyddio'r strategaethau hyn gartref. Mae dysgu rheoli ymddygiad eu plentyn yn her sylweddol i lawer o rieni a gofalwyr. Pan fydd rhieni'n cael cymorth, caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion yn y lleoliadau addysg ac yn y cartref fel ei gilydd. Enghraifft o gymorth effeithiol i rieni yw'r Gwasanaeth Cymorth Rhianta yng Ngwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Wrecsam.

**Astudiaeth achos 6: Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Wrecsam – Gwasanaeth Cymorth Rhianta**

**Cyd-destun**

UCD cyfnod allweddol 3 a 4 i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yw Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Wrecsam.

**Strategaeth**

Thema gyson a nodwyd trwy gyfarfodydd y cynllun cymorth bugeiliol oedd y modd yr oedd rhieni'n cael trafferth rheoli ymddygiad eu plant yn amgylchedd y cartref, a oedd yn effeithio ar eu hymgysylltiad ag addysg yn y pen draw. Gwelwyd bod cefnogi rhieni yn narpariaeth cyfnod allweddol 3 yn ffactor allweddol i wella ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion.

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cymorth Rhianta i roi cymorth hyblyg i deuluoedd, gan ystyried eu hanghenion amrywiol a chymhleth.

**Camau gweithredu**

Dechreuwyd y Gwasanaeth Cymorth Rhianta yn nhymor y gwanwyn 2013. Dyma yw nodweddion allweddol y rhaglen rianta:

- caiff nodi anghenion unigol penodol y teulu ei amlygu yn ystod yr asesiadau cychwynnol a gynhelir yn ystod ymweliadau cartref a chyfarfodydd y cynllun cymorth bugeiliol
- caiff cynllun rhianta unigol ei ddatblygu, a rhoddir strategaethau ar waith ar gyfer yr holl rieni sy'n cymryd rhan yn y rhaglen rianta; caiff y cynllun ei ddiweddaru a'i adolygu bob tymor i sicrhau bod yr holl gyngor a chymorth yn briodol
- caiff boreau coffi misol eu trefnu i ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr
- caiff cyflwyniadau tymhorol eu rhoi gan asiantaethau allanol, er enghraifft y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) a nyrs yr ysgol; gofynnir am fewnbwn gan yr asiantaethau penodol yn ystod cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr
- caiff sesiynau therapi crefft wythnosol gyda'r plentyn a'r rhiant/gofalwr eu hyrwyddo i feithrin perthnasoedd teuluol mwy cadarnhaol
- rhoddir cymorth i rieni pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol
- cynhelir ymweliadau cartref yn rheolaidd i roi cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol neu ddim yn dymuno gwneud hynny
- gellir llunio contractau rhwng y rhiant a'r plentyn ar ôl ymgynghori â'r rhiant a'r plentyn, gan atgyfnerthu ymddygiadau dymunol gartref ac yn yr ysgol
- cynhelir gwasanaeth galw i mewn bob wythnos

**Deilliannau**

Erbyn tymor yr hydref 2014-2015, roedd 85% o rieni'n cymryd rhan yn y rhaglen rianta. Mae deilliannau'n cynnwys:

- fe wnaeth bron i 80% o'r disgyblion y mae eu teuluoedd yn mynychu'r rhaglen wella'u presenoldeb, a llwyddodd hanner o'r rhain i wella'u presenoldeb fwy na 20 pwynt canran

Dywed rhieni:

- fod ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion eu plentyn trwy fewnbwn amlasiantaethol
- fod trafodaethau'r grŵp rhianta wedi bod yn hwyl ac wedi eu helpu i fagu hyder fel rhieni
- trwy gymryd rhan yn y rhaglenni medrau dysgu, y sesiynau medrau rhianta a therapi crefft, fod disgyblion yn cael yr holl sylw gan eu rhieni
- fod disgyblion yn datblygu strategaethau i ddelio â'u problemau dicter ac felly'n gwella eu hymddygiad gartref ac yn yr ysgol

**Cwricwlwm sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol**

43 Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae ystod y pynciau a gynigir yn amrywio'n sylweddol o un UCD i'r llall. Yn yr achosion gorau, mae gan ddisgyblion lwybrau unigol cynlluniedig sy'n bodloni eu hanghenion yn effeithiol ac yn cynnal eu diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn wedi cynyddu ystod y pynciau a'r profiadau dysgu a gynigiwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Lle ceir arfer dda, mae UCDau yn cynnig ystod eang o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent hefyd yn cynnig pynciau galwedigaethol fel adeiladu, cynnal a chadw beiciau, gwaith saer, gwallt a harddwch, bwyd a hylendid. Mae'r ystod hon o bynciau ac elfen o ddewis yn bwysig wrth ymgysylltu â disgyblion sydd wedi colli diddordeb mewn addysg yn y gorffennol ac yn eu helpu i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mewn rhai achosion, mae disgyblion wedi gallu parhau â'r pynciau galwedigaethol hyn yn y coleg.

44 I lawer o ddisgyblion sy'n dechrau mewn UCDau yng nghyfnod allweddol 4, nid yw'n briodol iddynt ddychwelyd i'w hysgol prif ffrwd. Mewn llawer o achosion, bydd yr ysgol wedi archwilio pob opsiwn posibl cyn rhoi'r disgybl yn yr UCD. Yn ychwanegol, pan fydd disgyblion wedi colli rhan sylweddol o'r cwricwlwm, mae'n anodd iddynt ailymuno â'u cyfoedion. I lawer o'r disgyblion hyn, nid yw cwricwlwm prif ffrwd yn bodloni eu hanghenion mwyach. I'r disgyblion hyn, mae'n hanfodol bod UCDau yn rhoi'r medrau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol iddynt er mwyn eu galluogi i symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae Canolfan Gyflawni'r Bont, er enghraifft, yn trefnu sesiynau rhagflas yn y prynhawn, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion brofi ystod o weithgareddau ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys gwallt a harddwch, coginio a ffotograffiaeth. Daw siaradwyr allanol i UCDau i siarad â disgyblion am eu dewisiadau gyrfa a'u hopsiynau coleg hefyd. Mae Gwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos yn cynnig gweithgareddau menter, a ariennir trwy Ymddiriedolaeth y Tywysog, fel cynnal a chadw beiciau a chreu crefftau. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ryngweithio â'r gymuned leol a datblygu eu medrau cymdeithasol.

45 Mewn llawer o'r UCDau, caiff disgyblion gyfleoedd i ennill ystod eang o gymwysterau priodol. Mae'r rhain yn cynnwys TGAU, Lefel Mynediad, Bagloriaeth Cymru, BTEC, ASDAN, Agored Cymru, Sgiliau Hanfodol Cymru a CACHE. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, ni chaiff disgyblion gyfle i ennill cymwysterau ar lefel briodol mewn perthynas â'u gallu.

46 Oherwydd adnoddau cyfyngedig a niferoedd bach o staff, mae'n annhebygol y bydd UCDau yn gallu darparu cynifer o bynciau ag ysgol. Er mwyn cynyddu ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4, mae rhai UCDau yn datblygu partneriaethau defnyddiol gydag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant lleol. Mae Gwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion prif ffrwd a cholegau AB trwy'r rhwydwaith 14-19. Er enghraifft, mae disgyblion o'r UCD yn dilyn cyrsiau adeiladu ac arlwyo yng Ngholeg Llandrillo ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

47 Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymestyn y cyfleoedd cwricwlwm i ddisgyblion UCDau. Er enghraifft, mae Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen wedi cysylltu â Chanolfan Gyflawni'r Bont yng Nghyngor Dinas Casnewydd yn ddiweddar i alluogi disgyblion i ddilyn cyrsiau adeiladu. Mae'r cydweithio hwn rhwng awdurdodau lleol yn gam cadarnhaol.

48 Yn yr achosion gorau, mae UCDau ac ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau i astudio pynciau yn yr UCD y maent wedi eu dechrau yn eu hysgol prif ffrwd. Mewn ychydig iawn o UCDau, gall disgyblion fynd yn ôl i'w hysgolion i barhau â chyrsiau yr oeddent yn eu dilyn cyn dechrau yn yr UCD, na all staff yr UCD eu darparu.

49 Mae rhai o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw yn cysylltu'n effeithiol â phrosiectau cymunedol. Er enghraifft, yng Ngwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos, mae disgyblion yn elwa ar brosiect mewn oriel gelf leol.

**Astudiaeth achos 7: Gwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos – cynyddu hyder a hunan-barch disgyblion trwy brosiect 'Cylch'**

**Cyd-destun**

UCD ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed rhwng 14 ac 16 oed sydd ag anawsterau yn gysylltiedig â phroblemau cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol neu bresenoldeb yw Gwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos.

**Strategaeth**

Un o nodau'r UCD yw sicrhau bod y cwricwlwm yn ennyn diddordeb pob disgybl. Yn ychwanegol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, mae'r ganolfan yn cynnig rhaglen ychwanegol cyfoethogi'r cwricwlwm (ACE) sy'n cael ei chyflwyno ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Un rhaglen hynod effeithiol yw prosiect Cylch, sy'n cael ei gynnal mewn oriel gelf leol. Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i ddatblygu disgyblion fel dysgwyr mewn cyd-destun heblaw yn yr ysgol a chynyddu eu hyder a'u hunan-barch.

**Camau gweithredu**

Mae grŵp o ddisgyblion nad oes ganddynt lawer o hyder a hunan-barch yn mynychu'r oriel yn rheolaidd, fel rhan o'r amserlen ond hefyd gyda'r nos ac yn ystod gwyliau'r haf. Trwy weithio gyda phobl eraill yn yr oriel, rhoddir cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu hyder a'u hunan-barch a dysgu medrau a fydd yn ddefnyddiol iddynt yn y gweithle. Mae cynorthwywyr addysgu o'r UCD, sydd â dealltwriaeth dda o'u hanghenion, yn mynd gyda'r disgyblion. Fel rhan o'r prosiect, mae disgyblion yn creu arddangosfeydd ac yn mynychu cyfarfodydd. Maent yn datblygu eu medrau cyfathrebu hefyd trwy ofyn am farn pobl ar y stryd fawr leol, ac yn rhoi cyflwyniadau i ystod o sefydliadau, er enghraifft y cyngor lleol, Trenau Arriva Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

**Deilliannau**

Mae'r prosiect wedi cael effaith sylweddol ar hyder a hunan-barch disgyblion unigol:

- Roedd un disgybl yn gwrthod mynd i'r ysgol, ond dengys ei adroddiad diweddaraf fod ei gyfradd presenoldeb yn 97%, ei fod ar y trywydd iawn i ennill ystod o gymwysterau, gan gynnwys 5 cymhwyster TGAU a 4 cymhwyster BTEC, a'i fod wedi llwyddo i gael swydd yng nghaffi'r oriel
- Llwyddodd disgybl arall sydd â phroblemau pryder difrifol i ymuno â'r grŵp a chymryd rhan yn y gweithgareddau ochr yn ochr â phobl yn yr oriel

50 Mae sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol ar gyfer profiad gwaith yn her i lawer o UCDau oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i fusnesau neu sefydliadau lleol sy'n fodlon derbyn disgyblion sydd ag ymddygiad heriol. Fodd bynnag, lle ceir arfer dda, mae UCDau yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda busnesau a sefydliadau lleol. O ganlyniad, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn profiad gwaith perthnasol, er enghraifft mewn meithrinfeydd dydd, garejys a salonau trin gwallt. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at leoliadau gwaith hirdymor a chyflogaeth yn achlysurol iawn.

**Ffocws ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion**

51 Mewn llawer o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg, mae gan athrawon a staff cymorth ddealltwriaeth glir o'r effaith y gall medrau llythrennedd a rhifedd nad ydynt wedi'u datblygu ddigon ei chael ar ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion. Yn yr UCDau hyn, mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion a'u hanghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu ymyriadau wedi'u targedu'n briodol a monitro ac olrhain cynnydd yn erbyn targedau unigol. Mae staff yn defnyddio data yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion ac asesu effaith yr ymyriadau ar ddeilliannau disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw UCD Ceredigion sydd, trwy system y sir ar gyfer data disgyblion (sy'n cael ei hadnabod fel y Ganolfan Athrawon), wedi creu systemau effeithiol ar gyfer asesu ac olrhain medrau llythrennedd a rhifedd pob disgybl. Mae hyn yn golygu bod gan staff wybodaeth drylwyr am anghenion a galluoedd disgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr UCD, a gallant roi ymyriadau priodol ar waith.

52 Megis dechrau datblygu y mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) mewn llawer o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, yn rhannol oherwydd y ffaith na chafodd pob un o'r UCDau eu cynnwys mewn hyfforddiant neu gymorth awdurdodau lleol pan gyflwynwyd y FfLlRh i ddechrau. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae staff yr UCD wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn mentrau a hyfforddiant llythrennedd a rhifedd.

53 Yn gynyddol, mae gan UCDau ffocws cliriach ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae Canolfan Gyflawni'r Bont wedi penodi athrawon arweiniol ar gyfer llythrennedd a rhifedd sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda chydweithwyr prif ffrwd i drafod a rhannu arfer dda. Mae'r UCD hon wedi penodi dau gynorthwyydd addysgu dynodedig hefyd sydd â chyfrifoldeb am gefnogi anghenion llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r strategaethau hyn yn helpu i sicrhau bod dull cyson ar draws yr UCD ac yn helpu i wella deilliannau disgyblion.

**Nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar ac ymyrraeth amserol**

54 Yn ogystal ag anawsterau llythrennedd a rhifedd, yn aml, mae gan ddisgyblion sy'n mynychu UCDau anghenion dysgu ychwanegol eraill yn aml. Lle ceir arfer dda, mae staff yn nodi'r anghenion dysgu ychwanegol hyn yn gynnar ac yn cynnwys seicolegwyr addysg a seicolegwyr plant mewn asesu disgyblion pan fo'n berthnasol. Yn yr UCDau hyn, mae staff yn rhoi sylw gofalus i anghenion asesedig y disgyblion. Maent yn rhoi ymyriadau priodol ar waith. Maent yn monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd yr ymyriadau yn drylwyr. Yn yr UCDau hyn, mae gan ddisgyblion dargedau priodol sy'n gysylltiedig â'u hanghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â'u hymddygiad.

55 Mae lefel arbenigedd staff i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn amrywio o un UCD i'r llall. Yn yr achosion gorau, caiff staff hyfforddiant rheolaidd o ansawdd uchel sy'n eu helpu i gefnogi disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith, anhwylder y sbectrwm awtistig, dyslecsia ac anghenion dysgu eraill.

56 Mae llawer o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw yn darparu cwricwlwm therapiwtig i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol y disgyblion. Mae hyn, er enghraifft, yn cynnwys rhaglenni ar hunan-barch, rheoli pryder a llythrennedd emosiynol. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu disgyblion i fagu hyder, mynd i'r afael â'u problemau personol a gwella'u hymddygiad, eu presenoldeb a'u safonau.

57 Lle ceir arfer orau, mae UCDau yn gweithio'n effeithiol ac mewn partneriaeth ag ystod o weithwyr proffesiynol i fynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion. Mewn dwy o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, caiff disgyblion gymorth hynod effeithiol gan dîm arbenigol o arbenigwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu. Enghraifft arall o waith partneriaeth da yw'r cydweithio agos rhwng addysg ac iechyd yng Ngwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS), sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion iechyd meddwl ac yn galluogi i anghenion unigol disgyblion gael eu hasesu a'u cefnogi'n briodol. Yn 2013, cydnabu Estyn waith partneriaeth rhagorol NWAS mewn astudiaeth achos arfer orau.

58 Yn ddiweddar, mae NWAS wedi datblygu ei ddarpariaeth ac mae'n darparu cymorth i ddisgyblion yn eu cymunedau erbyn hyn.

**Astudiaeth achos 8: Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS) – gweithio amlasiantaethol**

**Cyd-destun**

Darpariaeth cleifion mewnol y gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 12 ac 18 oed yng ngogledd Cymru sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol a chymhleth yw NWAS. Tra byddant yn cael gofal a thriniaeth therapiwtig, mae pobl ifanc yn mynychu UCD NWAS ar gyfer eu haddysg.

**Strategaeth**

Ym Medi 2013, sefydlwyd gwasanaeth ychwanegol gan NWAS, sef tîm Addysg Barcud i gefnogi pobl ifanc yn y gymuned. Nod y gwasanaeth yw:

- helpu disgyblion i ymgysylltu o'r newydd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth prif ffrwd
- cefnogi pobl ifanc er mwyn iddynt allu aros yn eu hardal ar gyfer eu haddysg
- lleihau'r cyfnod y mae cleifion mewnol yn mynychu addysg UCD

**Camau gweithredu**

Pan fydd unigolyn ifanc yn cael trafferth ymdopi ag addysg prif ffrwd, ond nid oes angen darpariaeth cleifion mewnol arno, mae tîm Addysg Barcud yn cefnogi'r bobl ifanc hyn yn eu cymunedau. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i ailintegreiddio mewn darpariaeth prif ffrwd a thrafod addasu'r ddarpariaeth gyda swyddogion yr awdurdod lleol a rheolwyr yr ysgol neu'r coleg. Caiff disgyblion gymorth gan anogwr dysgu hefyd, sy'n cynnig ymgynghoriadau un-i-un gyda'r disgyblion.

Pan fyddant yn parhau i gael anawsterau o ran cael addysg prif ffrwd, gall disgyblion ddewis mynychu sesiynau prynhawn yn yr UCD. Yn ystod y sesiynau hyn, caiff disgyblion gyfle i ymgysylltu o'r newydd ag arferion yr ystafell ddosbarth, gweithio ar aseiniadau prif ffrwd, trafod cynlluniau addysgol gyda staff addysgu'r UCD a chyfarfod â chynrychiolwyr Gyrfa Cymru.

**Deilliannau**

Yn ystod 2013-2014:

- Fe wnaeth y model newydd alluogi 17 o bobl ifanc ychwanegol o bob cwr o ogledd Cymru i fanteisio ar gymorth arbenigol gan dîm Addysg Barcud tra oeddent yn aros yn eu cymuned
- Yn sgil creu grŵp Addysg Barcud ar wahân, fe wnaeth tîm NWAS allu lleihau cyfnod derbyn cleifion mewnol 42%
- Fe wnaeth disgyblion gwasanaeth Addysg Barcud a oedd yn gleifion mewnol yn y gorffennol elwa ar drosglwyddo'n gyflymach tra oeddent yn parhau i gael lefel uchel o gymorth addysgol wedi iddynt ddychwelyd i'w hardal
- Fe wnaeth gwasanaeth Addysg Barcud sicrhau bod pobl ifanc wedi ailymgysylltu â gwasanaethau addysgol yn eu hardaloedd mewn ffordd effeithiol

- Trwy gynnig opsiynau addysgol ar wahân i bobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl, naill ai cymorth cleifion mewnol neu gymorth Addysg Barcud, ehangodd tîm addysg NWAS y cyfleoedd i bobl ifanc fanteisio ar yr ymyrraeth leiaf ymwthiol posibl iddyn nhw fel unigolion

**Strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio**

59 Mae'r graddau y mae disgyblion UCDau yn ailintegreiddio'n llwyddiannus mewn ysgolion prif ffrwd yn amrywio'n sylweddol. Mae tystiolaeth arolygu'n awgrymu bod ailintegreiddio llwyddiannus yn fwy tebygol o ddigwydd gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 a 3. Pan fydd ailintegreiddio yn llwyddiannus, mae gan bawb dan sylw ddealltwriaeth glir (disgyblion, rhieni, staff yr UCD a'r ysgol) mai ymyrraeth dargedig a thymor byr yw rhoi disgybl mewn UCD.

60 Lle ceir arfer dda, mae ysgolion yn cadw cysylltiadau agos â'u disgyblion ac mae disgyblion yn aros ar gofrestr yr ysgol. Mae enghreifftiau o'r cysylltiadau hyn yn cynnwys ymweliadau gan staff yr ysgol â'r UCD, mynychu cyfarfodydd adolygu rheolaidd, darparu gwaith cwrs neu adnoddau arbenigol a defnyddio data yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion.

61 Mewn rhai o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn, mae disgyblion yn parhau i fynd i'r ysgol yn rheolaidd (er enghraifft, am ddiwrnod yr wythnos) er mwyn cynnal cysylltiadau agos a hwyluso ailintegreiddio. Mae hyn yn cynnwys nifer o fanteision, sef:

- Mae'n sicrhau bod ysgolion yn parhau i gymryd cyfrifoldeb am y disgyblion
- Mae disgyblion yn deall mai'r bwriad yw eu bod nhw'n dychwelyd i'r ysgol
- Mae disgyblion yn parhau i gael addysg prif ffrwd
- Gall awdurdodau lleol arfarnu pan fydd disgybl yn barod i fynd yn ôl i'r ysgol
- Mae staff yr ysgol a'r UCD yn dysgu oddi wrth arbenigedd ei gilydd

62 Pan fydd yr ailintegreiddio yn llwyddiannus, ceir cyswllt rheolaidd rhwng staff yr ysgol a'r UCD, a gweithwyr proffesiynol eraill, lle bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cyn ailintegreiddio yn ogystal â chyfarfodydd i adolygu'r lleoliad. Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn cytuno ar gynlluniau pontio.

63 Mewn rhai o'r UCDau yr ymwelwyd â nhw, mae timau allymestyn yn gweithio gydag ysgolion lle mae disgyblion wedi ailintegreiddio ac yn rhoi cymorth parhaus i'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Er enghraifft, yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont, mae tîm cymorth allymestyn yn monitro disgyblion sydd wedi ailintegreiddio yn rheolaidd i'w hatal rhag llithro'n ôl, a sicrhau bod disgyblion yn parhau i fynychu.

64 Mewn ysgolion lle mae canolfannau cynhwysiant, mae cydweithio agos rhwng yr UCD a'r ganolfan gynhwysiant yn aml yn allweddol i sicrhau ailintegreiddio llwyddiannus. Pan fydd angen, gallai disgyblion dreulio cyfnod yn y ganolfan gynhwysiant cyn dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd.

65 Mae Canolfan Gyflawni’r Bont wedi datblygu model effeithiol sy’n annog ailintegreiddio effeithiol, trwy ei darpariaeth chwe wythnos, sef Pontio.

**Astudiaeth achos 9: Canolfan Gyflawni’r Bont – ymyrraeth ac ailintegreiddio tymor byr trwy Pontio**

**Cyd-destun**

Yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn 2011, cydnabu Cyngor Dinas Casnewydd fod gormod o ddisgyblion yn treulio cyfnodau estynedig mewn darpariaeth UCD yn hytrach na dychwelyd i ysgol prif ffrwd. Roedd hyn nid yn unig yn achosi prinder lleoliadau ond roedd hefyd yn golygu nad oedd disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cymell.

**Strategaeth**

Ochr yn ochr â sefydlu panel symudiadau wedi’u rheoli (gweler astudiaeth achos 2), cytunwyd bod angen darpariaeth tymor byr ar gyfer disgyblion a oedd yn ei chael yn anodd ymdopi ag ysgol prif ffrwd.

**Camau gweithredu**

Sefydlwyd grŵp asesu lle gellid asesu anghenion disgyblion dros gyfnod o bythefnos. Galluogodd hyn staff i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac asesu eu cymhwysedd emosiynol. Rhoddwyd rhaglenni ymyrraeth ar waith a gwnaed penderfyniad ynghylch p’un a ddylai disgyblion ddychwelyd i’r ysgol neu symud i brif leoliad yr UCD. Cyflogwyd dau weithiwr allymestyn gan y ganolfan a oedd yn ymweld â disgyblion yn eu hysgolion wedi iddynt fynd yn ôl yno i gefnogi ailintegreiddio didrafferth.

Yn dilyn y flwyddyn weithredu gyntaf, adolygwyd y ddarpariaeth, ac er bod 60% o ddisgyblion wedi dychwelyd i ddarpariaeth prif ffrwd, teimlwyd y gellid cynyddu’r ffigur hwn ymhellach. Arweiniodd hyn at ddatblygu darpariaeth ‘Pontio’, sef ymyrraeth tymor byr chwe wythnos. Fel rhan o’r rhaglen, mae disgyblion yn mynd yn ôl i’w hysgol letyol am ddiwrnod yr wythnos, wedi eu cefnogi gan staff o’r ganolfan sy’n arsylwi disgyblion mewn gwersi, yn gweithio ochr yn ochr â staff prif ffrwd i drafod strategaethau a helpu i hwyluso ailintegreiddio disgyblion. Caiff staff yr ysgol eu hannog i ddod i arsylwi disgyblion ar y rhaglen hefyd. Mae gan ddisgyblion a rhieni ddealltwriaeth glir mai nod y rhaglen yw eu galluogi i ddychwelyd i ddarpariaeth prif ffrwd.

Cyn derbyn disgyblion, cynhelir cyfarfod sy’n canolbwyntio ar y disgybl. Mae ystod o bartneriaid yn gweithio gyda’i gilydd i lunio cynllun datblygiad unigol (CDU) y maent yn ei adolygu pan fydd y disgybl yn dychwelyd i’r ysgol. Mae gweithwyr allymestyn o’r ganolfan yn parhau i gefnogi’r cynllun gweithredu bob wythnos trwy ymweld â’r ysgol. Ar ôl chwe wythnos, caiff y CDU ei adolygu eto a rhoddir perchnogaeth lwyr o’r cynllun gweithredu i’r ysgol o’r adeg honno. Mae staff y ganolfan yn tynnu’n ôl yn y rhan fwyaf o achosion, ond byddant yn parhau i roi cymorth pan fydd angen.

**Deilliannau**

Dyma yw prif effaith cyflwyno darpariaeth Pontio:

- Bu newid ym meddylfryd staff ysgol, mae staff yn deall ac yn derbyn yn llwyr mai darpariaeth tymor byr yw Pontio erbyn hyn
- Bu gostyngiad sylweddol yn y cyfnod y mae disgyblion yn ei dreulio yn yr UCD
- Yn ystod 2013-2014, fe wnaeth tri chwarter y disgyblion ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r brif ffrwd, ac aeth 70% ohonynt yn ôl ar ôl yr ymyrraeth chwe wythnos

66 Model effeithiol arall sy'n hyrwyddo ailintegreiddio yw pan fydd darpariaeth UCD wedi'i lleoli mewn ysgol. Fodd bynnag, ychydig iawn o enghreifftiau o hyn a geir yng Nghymru. Yn Ysgol Gynradd Llwyn-yr-Eos yng Ngheredigion, gall disgyblion yr UCD integreiddio i'r brif ffrwd ar adegau penodol o'r dydd, er enghraifft amser egwyl ac amser cinio. Pan fo'n briodol, maent yn mynychu gwersi prif ffrwd. Gan fod yr UCD wedi'i lleoli yn yr ysgol, gall staff asesu'n haws p'un a yw disgyblion yn barod i fynd yn ôl i'r brif ffrwd cyn ei symud. Mae lleoli'r ysgol a'r UCD gyda'i gilydd yn golygu y gall staff yr UCD elwa ar arbenigedd staff prif ffrwd mewn perthynas â datblygiadau'r cwricwlwm, er enghraifft. Yn ychwanegol, gall staff yr ysgol ennill medrau mewn rheoli ymddygiad.

## Arfer dda mewn ysgolion

67 Mewn ysgolion sy'n effeithiol o ran ennyn diddordeb disgyblion a'u helpu i reoli eu hymddygiad heriol, ceir:

- cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb pob disgybl
- dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad
- gweithdrefnau i nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar a phriodol, rhaglenni ymyrraeth amserol
- gwaith partneriaeth effeithiol

### Cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb pob disgybl

68 Mae pob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn cydnabod pwysigrwydd datblygu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu rhaglenni sydd wedi'u teilwra i fodloni anghenion disgyblion unigol. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys ffocws ar opsiynau galwedigaethol a chymwysterau perthnasol sy'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol. Maent yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau yn yr ysgol ac oddi ar y safle hefyd.

69 Mae Ysgol Gyfun Cymer Afan yn cysylltu â choleg lleol i wella ystod yr opsiynau sydd ar gael i ddisgyblion yn unol â'u hanghenion a'u diddordebau unigol. Er enghraifft, gall disgyblion ddilyn cyrsiau mewn adeiladu, peirianneg a thrin gwallt.

70 Yng Ngheredigion, gall disgyblion cyfnod allweddol 4 fanteisio ar ystod eang o opsiynau eraill y cwricwlwm, ac mae rhai ohonynt yn arwain at gredydau neu gymwysterau. Mae ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael eu targedu sy'n agored iawn i niwed ac mewn perygl o ymddieithrio yn gallu dilyn y cwricwlwm amgen ym Mlynyddoedd 8 a 9. Mae hyn yn eu helpu i aros mewn addysg amser llawn.

71 Fel rhan o ddull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, mae Ysgol Uwchradd Fitzalan wedi datblygu cwricwlwm amgen ar gyfer cyfnod allweddol 4. Mae hwn wedi'i gynllunio ar gyfer disgyblion nad yw cwricwlwm llawn traddodiadol yn addas ar eu cyfer. Mae'r rhaglen yn cynnwys addysg ffurfiol yn yr ysgol (hyd at 10 cymhwyster lefel 2 gan gynnwys TGAU a BTEC), hyfforddiant a rhaglenni galwedigaethol oddi ar y safle sydd wedi'u hanelu at ddatblygu medrau cymdeithasol, hunan-barch a llythrennedd emosiynol. Ceir cysylltiadau effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion hefyd.

72 Mewn llawer o achosion, mae disgyblion ag anawsterau ymddygiadol yn cael trafferth ymdopi â gofynion cwricwlwm prif ffrwd a phwysau bod mewn amgylchedd prysur fel ysgol uwchradd. Mae Ysgol Uwchradd Casnewydd wedi mynd i'r afael â'r broblem hon yn effeithiol trwy sefydlu darpariaeth oddi ar y safle, Betws yn ei Blodau, ar gyfer disgyblion targedig.

**Astudiaeth achos 10: Ysgol Uwchradd Casnewydd – Betws yn ei Blodau**

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun gymunedol 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Casnewydd. Yn hanesyddol, roedd lefel y gwaharddiadau cyfnod penodol yn yr ysgol yn uchel: 286 o ddiwrnodau yn 2009 a 190 o ddiwrnodau yn 2010. Cafodd dau ddisgybl eu gwahardd yn barhaol bob blwyddyn ar gyfartaledd. Roedd presenoldeb yn faes i'w ddatblygu hefyd (86% yn 2009 ac 89% yn 2010).

**Strategaeth**

Er bod cyfleusterau addysgu a dysgu o'r 21ain ganrif yn cael eu darparu gan ysgol newydd, roedd nifer o ddisgyblion o hyd yr oedd angen rhaglen darpariaeth amgen arnynt i sicrhau eu bod yn aros mewn addysg.

I sicrhau eu bod yn gallu bodloni anghenion y disgyblion hyn, eu cadw ar y gofrestr ysgol a sicrhau eu bod yn ennill cynifer o gymwysterau lefel 1 a lefel 2 ag y bo modd, penderfynodd yr ysgol ddatblygu ei rhaglen dysgu yn y gymuned ei hun.

Y bwriad oedd creu rhaglen a fyddai'n ennyn diddordeb disgyblion, yn gwella presenoldeb y rhai sydd â lefelau uchel o absenoldeb anawdurdodedig, lleihau'r angen i wahardd disgyblion am gyfnod penodol neu'n barhaol a lleihau nifer y disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Cynlluniwyd y ddarpariaeth hon hefyd i sicrhau bod pawb sy'n gadael yr ysgol yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.

**Camau gweithredu**

Bu'r ysgol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i nodi sylfaen addas ar gyfer rhaglen

dysgu yn y gymuned sy'n cael ei rhedeg gan yr ysgol. Daethpwyd o hyd i hyn yn Betws yn ei Blodau, sef cymdeithas amgylcheddol gymunedol ag ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio gan ystod lawn o grwpiau cymunedol.

Penodwyd cydlynydd dysgu i arwain a rheoli'r ddarpariaeth a monitro cynnydd yr holl ddisgyblion perthnasol. Penodwyd dau aelod o staff amser llawn ychwanegol hefyd – sef athro a chynorthwyydd addysgu sy'n arbenigo mewn ymgysylltu â disgyblion – o blith staff presennol Ysgol Uwchradd Casnewydd i weithio ar y rhaglen dysgu yn y gymuned.

Gweithiodd yr ysgol gyda grŵp cymunedol Betws yn ei Blodau i uwchraddio'r cyfleusterau. Roedd hyn yn cynnwys gosod band eang a chegin. Fe wnaethant osod cyfleusterau ystafell ddosbarth a TG llawn i sicrhau bod lefel y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y brif ysgol.

Cytunwyd ar feini prawf a phrosesau cyfeirio. Mae'r disgyblion sy'n cael eu cyfeirio naill ai wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol droeon sydd felly mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol, neu ddisgyblion sydd wedi nodi anghenion anogaeth ac yn ddysgwyr sy'n agored i niwed neu'n ddysgwyr anfoddog. Bydd disgyblion wedi manteisio ar ystod o gymorth ac ymyrraeth cyn cael eu cyfeirio ar y rhaglen dysgu yn y gymuned.

Mae'r cwricwlwm wedi'i bersonoli ar gyfer y disgyblion hynny sy'n defnyddio'r ddarpariaeth. Mae dau brif fath o raglen ar gael, sef anogaeth a chyflawniad. Mae darpariaeth anogaeth yn cynnig lefelau uchel o gymorth bugeiliol ac emosiynol i grwpiau bach o ddisgyblion tra'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd a throthwy lefel 1. Mae'r rhaglen gyflawniad yn rhoi cyfle i ddisgyblion fanteisio ar gwricwlwm galwedigaethol wedi'i bersonoli sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mae'r rhaglen hon yn darparu cyrsiau sy'n arwain at drothwy lefel 2 a chymhwyster mewn Saesneg a mathemateg i ddisgyblion. Mae rhai disgyblion yn defnyddio'r Ganolfan Wybodaeth ('Info Shop') sy'n cael ei rhedeg gan y gwasanaeth ieuenctid a phrosiect 'Peak' sy'n canolbwyntio ar fedrau bywyd yn rhan-amser. Gall disgyblion ddilyn rhaglenni Coleg Gwent yn rhan-amser hefyd lle maent yn dilyn ystod o gymwysterau lefel 1 a lefel 2. Caiff lleoliadau gwaith perthnasol a difyr eu sefydlu hefyd ar sail diddordeb a chyflawniad blaenorol.

Pan fo modd, mae disgyblion unigol yn dilyn y rhaglen gymunedol yn rhan-amser, sy'n eu galluogi i barhau i ddilyn darpariaeth graidd neu ddewisol yn yr ysgol.

Mae'r cydlynydd dysgu yn y gymuned yn darparu adroddiad cynnydd bob hanner tymor i'r dirprwy bennaeth ar gynnydd disgyblion. Caiff perfformiad disgyblion ei olrhain ar draws pob pwnc yn erbyn eu targedau ar ddiwedd cyfnodau allweddol ac fe gaiff hunanarfarniad a chynllun gwella trylwyr eu llunio a'u monitro yn yr un modd â phob adran arall yn yr ysgol.

Mae disgyblion dysgu yn y gymuned yn cyfarfod â chynrychiolwyr Gyrfa Cymru yn rheolaidd i drafod opsiynau ôl-16 a llwybrau gyrfa. Gall pob disgybl ddilyn rhaglen profiad gwaith. Mae staff yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru i nodi disgyblion na fyddant o bosibl mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Caiff disgyblion eu cynorthwyo i wneud dewisiadau gwybodus am y cyrsiau y maent yn eu dilyn a'r

opsiynau sydd ar gael iddynt ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae anogwr dysgu hyfforddedig ar gael i ddisgyblion. Cynhelir adolygiadau presenoldeb rheolaidd gyda'r swyddog lles addysg.

**Deilliannau**

Dyma yw prif effaith y ddarpariaeth:

- Fe wnaeth un deg tri disgybl yng ngharfan Blwyddyn 11 yn 2014 elwa ar ddarpariaeth amgen amser llawn neu gyfuniad o raglenni dysgu prif ffrwd a chymunedol
- Llwyddodd saith o'r disgyblion hyn i gyflawni trothwy lefel 2
- Am y pedair blynedd ddiwethaf, nid oes yr un myfyriwr wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig
- Mae pob un o'r disgyblion a dderbyniwyd dros y tair blynedd ddiwethaf fel rhan o'r broses symudiadau rheoledig wedi llwyddo i gynnal eu lleoliadau ac wedi gadael gyda chymwysterau
- Mae cyfradd presenoldeb disgyblion yn y ddarpariaeth gryn dipyn yn uwch na chyn iddynt ddechrau yn Betws yn ei Blodau
- Bu gostyngiad sylweddol yng nghyfradd y gwaharddiadau ar gyfer disgyblion sy'n elwa ar y ddarpariaeth

**Dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad**

73 Yn genedlaethol, mae cyfradd y gwaharddiadau wedi gostwng dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Pan fydd ysgolion yn fwyaf effeithiol yn lleihau nifer y gwaharddiadau ac yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn yr ysgol, maent wedi mabwysiadu dull strategol ysgol gyfan o reoli ymddygiad disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw'r dull pum cam yn Ysgol Uwchradd Fitzalan, lle ceir dealltwriaeth ar y cyd o'r ymateb graddedig i ymddygiad heriol.

**Ysgol Uwchradd Fitzalan – ymateb graddedig i ymddygiad heriol**

CAM 1
Pwyntiau ymddygiad/cadw yn ôl gan yr adran/cadw yn ôl gan yr ysgol gyfan

CAM 2
Uned cymorth dysgu/cynlluniau ymddygiad unigol, cynlluniau cymorth bugeiliol/gweithdrefnau adferol ar alwad

CAM 3
Cwricwlwm amgen/cyfleoedd estynedig/UCD rithwir (caiff disgyblion eu tynnu o wersi prif ffrwd am chwe wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwn, maent yn dilyn cwricwlwm gyda phynciau craidd a mentora dwys)

CAM 4
Rhaglen addysg oddi ar y safle, wedi'i hwyluso gan staff Fitzalan, ac yn defnyddio asiantaethau allanol hefyd i ddatblygu medrau cymdeithasol a llwybrau dilyniant ôl-16

CAM 5
Darpariaeth sirol arbenigol
UCD/Ysgol Arbennig Greenhill

74 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw lle mae rheoli ymddygiad yn effeithiol, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion a pholisïau a gweithdrefnau ymddygiad clir y mae pob un o'r staff yn eu rhoi ar waith yn gyson. Mae disgyblion a rhieni'n deall y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn dda. Er bod gan yr ysgolion hyn gosbau clir a phriodol, maent yn rhoi mwy o bwyslais ar ymddygiad cadarnhaol ac yn gwobrwyo disgyblion am wneud dewisiadau da.

75 Yn yr ysgolion hyn, caiff staff hyfforddiant effeithiol ar reoli ymddygiad. O ganlyniad, dros gyfnod, maent yn datblygu eu gallu i fodloni anghenion disgyblion heb fod angen cymorth nac ymyrraeth allanol.

76 Mae rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn defnyddio dulliau adferol yn effeithiol i ddatrys materion yn yr ysgol ac yn helpu disgyblion i ddatblygu perthnasoedd gwell gyda'u cyfoedion. Mae'r arfer hon yn cyfrannu at ymddygiad gwell a gostyngiad yn lefel y gwaharddiadau.

**Astudiaeth achos 11: Ysgol Uwchradd Fitzalan – cyflwyno dulliau adferol**

**Cyd-destun**

Ysgol uwchradd fawr ac amlddiwylliannol yng Nghaerdydd yw Ysgol Uwchradd Fitzalan. Mae'n gwasanaethu rhai o ardaloedd mwyaf amrywiol a difreintiedig y ddinas. Roedd cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel ac roedd yr un disgyblion yn cael eu gwahardd droeon heb unrhyw effaith ar eu hymddygiad. Roedd cyfraddau absenoldebau yn rhy uchel hefyd, yn rhannol oherwydd nifer uchel y gwaharddiadau.

**Strategaeth**

Y nod oedd cyflwyno dulliau adferol ar draws yr ysgol gan obeithio lleihau meysydd gwrthdaro, cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a chyfraddau absenoldeb. Gwelwyd bod dulliau adferol yn gyfrwng o newid ymddygiadau trwy feithrin a chynnal perthnasoedd trwy ryngweithio cadarnhaol a pharch ar y ddwy ochr. Mae dulliau adferol yn sicrhau bod pawb yn cael ei glywed, teimladau'n cael eu trafod, ymdrin ag effaith yr ymddygiadau ar bobl eraill ac wedyn daw pawb yn rhan o'r ateb gyda'i gilydd. I ddechrau, roedd dulliau adferol yn cael eu gweld fel ffordd o ymateb i achosion sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, cânt eu defnyddio'n fwy rhagweithiol erbyn hyn i osgoi achosion rhag digwydd yn y lle cyntaf.

**Camau gweithredu**

Hyfforddodd yr ysgol nifer o staff allweddol i ddechrau (staff bugeiliol, yr uwch dîm rheoli, cynorthwywyr addysgu). Buan y cydnabuwyd y byddai angen mabwysiadu'r dull ar draws yr ysgol gyfan er mwyn iddo fod yn gwbl effeithiol. Mae rhaglen hyfforddi barhaus yn cael ei chynnal erbyn hyn. Ar ddiwedd pob cam o'r hyfforddiant,

caiff staff eu hasesu a dim ond pan fydd 80% o staff yn teimlo'n hyderus y maent yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae pob cam yn cynnwys ymgorffori dulliau adferol ymhellach yn arferion a pholisïau'r ysgol.

Wrth i staff newydd gyrraedd, rhoddir hyfforddiant iddynt mewn dulliau adferol hefyd. Caiff dulliau adferol eu defnyddio gan nifer sylweddol o staff erbyn hyn. Mae dulliau adferol yn cael eu hymgorffori mewn amser dosbarth ac addysgu a dysgu erbyn hyn.

**Deilliannau**

Gwelwyd newidiadau cadarnhaol sylweddol mewn perthnasoedd yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn ogystal â gwelliannau sylweddol mewn perthynas â phresenoldeb a gwaharddiadau cyfnod penodol. Er enghraifft:

- cynyddodd presenoldeb o 90.9% yn 2010-2011 i 93.7% yn 2013-2014
- gostyngodd nifer y diwrnodau gwaharddiadau cyfnod penodol o 984 yn 2010-2011 i 84 yn 2013-2014
- gostyngodd nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd am gyfnod penodol o 140 yn 2010-2011 i 59 yn 2013-2014

77 Strategaeth sy'n cael ei defnyddio'n aml gan ysgolion uwchradd yn lle gwaharddiadau cyfnod penodol yw 'gwaharddiadau mewnol'. Mae amrywiad yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio darpariaeth o'r fath, yn ogystal â'r ffordd y defnyddir y math hwn o ddarpariaeth. Gallai gyfeirio at 'ystafell wahardd fewnol' y gellir anfon disgyblion iddi pan fyddant yn ymddwyn mewn ffordd sy'n golygu na allant gyfrannu at waith mewn ystafell ddosbarth gyda'u cyfoedion. Mae disgyblion yn gweithio yn yr ystafelloedd hyn dan oruchwyliaeth am gyfnod penodol ac nid ydynt yn cymysgu â phoblogaeth yr ysgol ehangach. Math arall o waharddiad mewnol yw pan fydd angen i ddisgyblion dreulio cyfnod penodol gydag uwch aelod o staff, yn lle cael eu hanfon i ystafell ddynodedig.

78 Mae'r egwyddor i gadw disgyblion ar safle'r ysgol a sicrhau nad ydynt yn colli allan ar addysg yn egwyddor bwysig iawn. Fodd bynnag, pan fydd yn fwyaf effeithiol, nid dim ond cyfleuster cosbi yw gwaharddiad mewnol, ond mae'n un sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion archwilio'r rhesymau am eu gweithredoedd ac yn rhoi strategaethau iddynt addasu eu hymddygiad.

## Nodi ac ymyrraeth gynnar

79 Mae ystod o anawsterau gan lawer o ddisgyblion sy'n ei chael yn anodd aros mewn ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys sefyllfaoedd teuluol heriol a phroblemau personol. Nid yw medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion eraill wedi'u datblygu'n ddigonol neu mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Pan fydd gan ysgolion systemau effeithiol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd disgyblion, sy'n nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar, gallant roi ymyrraeth briodol ar waith sy'n cadw disgyblion yn y brif ffrwd.

80 Mae gan lawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw systemau data trylwyr, sy'n cynnwys data cyrhaeddiad yn ogystal â gwybodaeth am bresenoldeb ac ymddygiad.

Defnyddiant ystod o ddulliau i ddadansoddi'r data hwn, er enghraifft trwy ddefnyddio system CAG (coch, ambr, gwyrdd) i nodi disgyblion y mae'n debygol y bydd angen cymorth neu ymyrraeth ychwanegol arnynt.

81 I rai disgyblion, mae'n amlwg o oedran cynnar eu bod yn debygol o gael anawsterau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Cafodd Ysgol Gynradd Holton ei chynnwys, ynghyd ag ysgolion eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, mewn prosiect Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR). Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i nodi disgyblion sydd mewn perygl a darparu ymyrraeth briodol ar gyfer disgyblion yn gynnar.

**Astudiaeth achos 12: Ysgol Gynradd Holton – cynnig asesu ac ymyrraeth gynnar**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Holton wedi'i lleoli yng nghanol tref y Barri ym Mro Morgannwg. Nodwyd bod y ward lle mae'r ysgol wedi'i lleoli ymhlith y deg y cant uchaf o wardiau mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2014. Mae 31.9% o ddisgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd.

**Strategaeth**

Yn 2011, dechreuodd yr ysgol, gyda chymorth yr awdurdod lleol, ddefnyddio Asesiad Ar-lein yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR) a ddatblygwyd gan Brifysgol Sussex. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i nodi disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, yn enwedig y rhai sydd â dicter, pryder ac iselder uwch na'r cyffredin, a hunanwerth is na'r cyffredin. Mae'r asesiad yn nodi p'un a yw'r teimladau negyddol yn fwy amlwg yn amgylchedd y cartref neu'r ysgol hefyd.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi datblygu'r ffordd y mae'n dadansoddi angen unigolion, grŵp blwyddyn ac ysgol gyfan gan ddefnyddio asesiadau NBAR. Ar yr un pryd, mae wedi cyflwyno ystod o ymyriadau i fodloni'r anghenion a nodwyd.

**Camau gweithredu**

Mae'r rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) wedi cael ei chyflwyno a'i defnyddio gan yr ysgol gyfan i ddatblygu dealltwriaeth o berthnasoedd a llythrennedd emosiynol. Cynhelir gweithgareddau wythnosol yn y dosbarth a defnyddir gwasanaethau i atgyfnerthu'r themâu bob hanner tymor. Defnyddir amser cylch yn rheolaidd mewn dosbarthiadau hefyd i archwilio teimladau a sicrhau bod llais gan bob disgybl.

Mae'r polisi ymddygiad wedi cael ei adolygu gan uwch reolwyr. Mae pob un o'r staff, gan gynnwys goruchwylwyr amser cinio, wedi cael hyfforddiant. Mabwysiadwyd dull ysgol gyfan cydlynol, sy'n sicrhau bod disgwyliadau, gwobrau a strategaethau ymyrraeth yn gyson. Mae pob un o'r athrawon dosbarth wedi cael hyfforddiant pwrpasol i fodloni anghenion eu disgyblion os oes nodweddion dosbarth cyfan wedi cael eu nodi gan yr asesiad NBAR.

Mae gan y dirprwy bennaeth rôl "hyrwyddwr lles" yn yr ysgol ac mae'n gyfrifol am ddadansoddi'r data a ddarperir gan yr asesiad NBAR, cysylltu â'r awdurdod lleol a chydlynu'r ymateb i angen o fewn yr ysgol. Caiff cyswllt agos ei gynnal gyda chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yr ysgol, asiantaethau allanol a rhieni.

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i gyflogi mentor anogaeth sydd wedi cael ei hyfforddi mewn ymyriadau penodol i fynd i'r afael ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r mentor anogaeth yn gweithio gyda grwpiau bach o ddisgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion tebyg. Caiff pob grŵp 30 munud o gymorth penodol bob wythnos trwy gydol y flwyddyn.

Sefydlwyd grwpiau anogaeth i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion y mae canlyniadau eu hasesiad NBAR wedi dangos bod ganddynt anghenion mewn nifer o feysydd emosiynol. Caiff y disgyblion hyn eu hasesu a'u monitro gan ddefnyddio Proffil Boxall. Mae dau grŵp anogaeth yn yr ysgol ar hyn o bryd ac fe gaiff y naill a'r llall eu cynnal am ddau brynhawn yr wythnos.

Mae tîm o fentoriaid cyfoedion o Flynyddoedd 5 a 6 wedi cael hyfforddiant i gynorthwyo disgyblion eraill pan fydd ganddynt anawsterau o ran cyfeillgarwch ar yr iard chwarae.

**Deilliannau**

Mae'r ymyriadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Er enghraifft:

- Mae disgyblion yn dangos ymddygiad da o amgylch yr ysgol
- Mae disgyblion sy'n teimlo'n bryderus neu'n agored i niwed yn datblygu lefelau hyder cryfach
- Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi gadael yr ysgol i fynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn y tair blynedd ddiwethaf
- Mae nifer y cyfeiriadau at dîm cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol wedi gostwng
- Mae tua 80% o ddisgyblion sy'n dilyn gweithredu gan yr ysgol a mwy ar gyfer problemau ACEY wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig neu fwy o gynnydd na'r disgwyl yn eu dysgu yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf
- Mae'r gyfradd presenoldeb wedi codi o 92.6% yn 2011-2012 i 94.1% yn 2013-2014

82 Adeg allweddol ym mywydau disgyblion sy'n agored i niwed yw'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae llawer o ddisgyblion sy'n agored i niwed yn ei chael yn anodd ymdopi â symud i leoliad mawr anghyfarwydd. Mae Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf wedi mynd i'r afael â'r broblem hon yn llwyddiannus trwy nodi disgyblion sydd mewn perygl pan fyddant yn yr ysgol gynradd a darparu cymorth priodol yn y cyfnod pontio ac yn ystod y sector uwchradd.

**Astudiaeth achos 13: Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf – helpu disgyblion i drosglwyddo**

**Cyd-destun**

Ysgol 11-16 oed wedi'i lleoli yng Nghwm Afan Uchaf yw Ysgol Gyfun Cymer Afan, tua naw milltir i'r gogledd o Bort Talbot. Mae'n un o'r ysgolion uwchradd lleiaf yng Nghymru gyda 244 o ddisgyblion ar y gofrestr. Er mwyn cynnal addysg ledled Cwm Afan Uchaf, cafodd pedair ysgol gyfun a'r ysgol gyfun eu ffedereiddio'n ffurfiol ym Medi 2013.

Mae sawl ward cyngor yn y dalgylch sy'n cynnwys lefelau sylweddol o amddifadedd – mae dwy o'r pedair ward yn y 10% isaf yng Nghymru. Mae 42% o ddisgyblion ar draws y ffederasiwn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Cyn ffedereiddio, roedd cyfraddau gwahardd ar draws yr ysgol yn uchel, a chollwyd dros 300 o ddiwrnodau yn sgil gwaharddiadau yn 2010. Roedd cyfraddau presenoldeb gwael yn gysylltiedig â hyn, ac roedd pob ysgol yn y chwarteri is ar gyfer presenoldeb. Roedd angen mwy o gymorth ac ymyrraeth ar lawer o'r disgyblion i'w galluogi i elwa ar y cwricwlwm oherwydd lefelau uchel o dlodi, cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol ac amgylchiadau teuluol.

**Strategaeth**

Teimlwyd bod angen continwwm o gymorth di-dor ar draws pob cyfnod allweddol i ostwng lefelau o ymddieithrio ymhlith disgyblion. Fel ffederasiwn o ysgolion, mae'n bosibl sicrhau arfer a pholisïau cyson ar draws pob campws. Mae'r continwwm o gymorth di-dor yn dechrau â darpariaeth anogaeth ar draws y pedair ysgol gynradd, gan barhau â chymorth 'Lle Datblygu' ar draws sectorau yng nghyfnod allweddol 2 a 3, gan arwain at gynllun cwricwlwm llwybrau o Flwyddyn 9.

**Camau gweithredu**

Caiff anghenion disgyblion eu nodi'n gynnar iawn yn eu gyrfaoedd ysgol a rhennir gwybodaeth yn ffurfiol ac yn anffurfiol mewn cyfarfodydd ffederasiwn â'r CydADY bob hanner tymor a thrwy'r e-bost. Yn ychwanegol i'r CydADY sy'n gweithio ym mhob ysgol gynradd, mae CydADY arweiniol sy'n gweithio ar draws y ffederasiwn. Caiff y cofrestri anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer y pum ysgol eu casglu bob tymor a'u defnyddio i ddiweddaru'r system rheoli gwybodaeth ysgolion. Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn werthfawr i staff yr ysgol uwchradd gan ei bod yn eu galluogi nhw i ragfynegi, gyda chywirdeb, y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol sydd ei hangen am y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn hanfodol wrth gynllunio anghenion CCD a dewisiadau opsiwn yn y dyfodol.

Mae gan y Lle Datblygu (neu'r ganolfan gynhwysiant) rôl hynod bwysig o ran helpu disgyblion yn y cyfnod pontio i'r sector uwchradd. Er bod y ganolfan wedi'i lleoli yn yr ysgol uwchradd, mae disgyblion oedran cynradd yn ei defnyddio hefyd. Ar hyn o bryd, mae'n gwasanaethu sawl grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys grŵp pontio Blwyddyn 6 o ddisgyblion sy'n ymweld â'r Lle Ddatblygu bob bore dydd Gwener i helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u hunanhyder.

Mae disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r ysgol oherwydd problemau cymdeithasol, domestig neu ymddygiad hefyd yn mynychu'r Lle Datblygu ar adegau dynodedig yn eu hamserlen. Yn dibynnu ar eu hanghenion penodol, maent naill ai'n parhau â'u gwaith dosbarth neu'n cael cymorth gan staff ar hunan-barch, rheoli dicter a materion penodol yn ymwneud ag amddiffyn plant.

**Deilliannau**

Mae ymyrraeth dargedig wedi arwain at bresenoldeb cynyddol a llai o waharddiadau:

- Mae presenoldeb cynradd ar draws y ffederasiwn wedi gwella o 92.6% yn 2011-2012 a 92.3% yn 2012-2013 i 94.3% yn 2013-2014
- Mae presenoldeb uwchradd wedi cynyddu o 90.5% yn 2011-2012 i 91% yn 2013- 2014
- Cyfanswm nifer y gwaharddiadau yn 2010 oedd 303 o ddiwrnodau a oedd yn cynnwys 39 o ddisgyblion; cyfanswm nifer y gwaharddiadau yn 2013-2014 oedd 28 o ddiwrnodau a oedd yn cynnwys pedwar disgybl

83 Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn yn defnyddio ystod o ymyriadau i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion targedig yn gynnar. I lawer o ddisgyblion, mae'r cymorth cynnar hwn yn atal eu hanawsterau rhag cynyddu. Roedd rhai o'r strategaethau a arsylwyd yn cynnwys:

- canolfannau cynhwysiant
- darpariaeth anogaeth
- cymorth cyfoedion

84 Ar gyfer yr adroddiad hwn, bydd y term 'canolfan gynhwysiant' yn cyfeirio at adnodd yn yr ysgol, sy'n cefnogi disgyblion ag ystod o anghenion. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn defnyddio canolfannau cynhwysiant yn effeithiol i gefnogi disgyblion sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, yn agored i niwed. Mae canolfannau cynhwysiant yn amrywio o un ysgol i'r llall, o ran maint a diben. Maent fel arfer yn gwasanaethu fel darpariaeth y gall disgyblion fynd iddi os bydd angen cymorth a chyngor un-tro neu gymorth tymor hwy arnynt. Gall y cymorth hwn gynnwys rhaglenni llythrennedd unigol neu grŵp, cwnsela, mewnbwn gan athrawon arbenigol neu seicolegwyr addysg yn ogystal â gwasanaethau eraill fel gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS) neu wasanaethau lles addysg (GLlA).

85 Yn dilyn ei adolygiad o wasanaethau cymorth ymddygiad, sefydlwyd darpariaeth Hafan gan Gyngor Ceredigion ym mhob ysgol uwchradd (gweler astudiaeth achos 1). Yn Ysgol Bro Pedr, yr ymwelwyd â hi fel rhan o'r arolwg, caiff darpariaeth Hafan ei chynnal gan ddau gynorthwyydd addysgu sydd wedi cael hyfforddiant fel anogwyr dysgu hefyd. Dywedodd disgyblion a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r ymweliad fod yr Hafan yn lle diogel ble maent yn teimlo'n hyderus i fynegi eu pryderon a thrafod materion personol. Mae'r Hafan yn gwasanaethu fel canolfan ar gyfer cyfarfodydd amlasiantaethol hefyd. Mae rhieni sy'n amharod i fynd i'r ysgol yn teimlo eu bod yn gallu trafod eu plant yma.

86 Strategaeth bwysig arall i gefnogi disgyblion a nodwyd yw anogaeth. Mae grwpiau anogaeth yn helpu disgyblion sydd, oherwydd eu profiadau cynnar, yn ei chael yn anodd meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Trwy ymyrraeth dargedig, maent yn dysgu uniaethu â phobl eraill, yn addasu eu hymddygiad ac yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ymdopi â heriau a chyflawni. Un enghraifft o ddarpariaeth anogaeth effeithiol yw yn Ysgol Gynradd Pen Afan.

**Astudiaeth achos 14: Ysgol Gynradd Pen Afan – darparu grwpiau anogaeth**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Pen Afan yn un o bedair ysgol gynradd yn Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf. Yn hanesyddol, mae presenoldeb ar draws yr ysgolion wedi bod yn wael a chyfraddau gwaharddiadau yn uchel.

**Strategaeth**

Fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion sy'n agored i niwed, cydnabu rheolwyr yr angen i nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gynnar a mynd i'r afael â'u hanghenion trwy ddarpariaeth anogaeth.

**Camau gweithredu**

Sefydlwyd y grŵp anogaeth cyntaf, sef y Clwb Gofod, yn Ysgol Gynradd Pen Afan. Ers hynny, mae wedi cael ei ail-greu ym mhob un o'r ysgolion cynradd o fewn y ffederasiwn. Mae disgyblion sy'n tangyflawni am resymau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol yn cael cymorth targedig gan staff hyfforddedig, i'w galluogi i elwa ar y cwricwlwm, cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol, a dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Mae'r 'Clwb Gofod' wedi'i leoli mewn ystafell a gynlluniwyd yn ofalus, gydag ardal gartrefol ac ardal sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu ffurfiol. Mae disgyblion yn mynychu'r grŵp yn rhan-amser (un neu ddau fore bob wythnos) am o leiaf tymor, ond gallant aros yn y grŵp cyhyd ag y mae cynnydd yn cael ei wneud. Os oes pryderon o hyd, er bod disgyblion yn mynychu'r grŵp, gellir eu cyfeirio ar gyfer asesiad pellach.

Caiff disgyblion eu nodi ar gyfer y 'Clwb Gofod' gan ddefnyddio cyfuniad o brawf Proffil Boxall a chyfeiriadau cychwynnol athrawon. Mae'r cynorthwyydd cymorth dysgu sydd â gofal am y ddarpariaeth yn dadansoddi'r data ac yn cyfarfod â staff i drafod y canfyddiadau. Gellir cael rhagor o gyngor gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol arweiniol neu dîm anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol.

Wrth ddewis disgyblion ar gyfer y grwpiau anogaeth, ceir pwyso a mesur yn ofalus i sicrhau y bydd y disgyblion yn gallu gweithio fel grŵp. Mae rhwng chwech ac wyth o ddisgyblion yn y grŵp anogaeth ar unrhyw adeg benodol. Mae sesiynau yn hynod strwythuredig gyda threfn glir, sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad disgyblion. Yn ystod y sesiynau hyn, ceir ystod gynlluniedig o weithgareddau, gyda ffocws ar ddatblygu gwaith tîm, dysgu cymryd eich tro, siarad a gwrando a rhannu. Caiff disgyblion eu

hannog i siarad yn agored gyda'u cyfoedion am eu teimladau a rheoli eu hemosiynau.

Pan fydd disgyblion wedi gwneud digon o gynnydd i ddychwelyd i ystafell ddosbarth prif ffrwd amser llawn, gwneir trefniadau i'w tynnu allan yn raddol. Mae'r cynorthwyydd cymorth dysgu sydd â gofal yn cysylltu'n agos ag athrawon dosbarth, fel eu bod yn gallu gweithio tuag at yr un targedau a mabwysiadu'r un strategaethau wrth weithio gyda'r disgyblion hyn.

**Deilliannau**

Mae'r Clybiau Gofod wedi cael effaith sylweddol ar y disgyblion sy'n cymryd rhan ynddynt:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dysgu rheoli eu teimladau ac yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u cyfoedion
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dychwelyd i'w dosbarth prif ffrwd yn llwyddiannus

87 Strategaeth arall effeithiol, a all gael effaith gadarnhaol iawn ar ennyn diddordeb disgyblion, yw cymorth cyfoedion. Mae mentora cyfoedion yn digwydd yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, er nad yw wedi'i sefydlu'n dda ym mhob ysgol eto. Mae gwahanol fathau o fentora cyfoedion a arsylwyd yn cynnwys mentora yn ogystal â sesiynau wedi'u hamserlennu. Roedd disgyblion a gafodd eu cyfweld mewn un ysgol yn teimlo bod hyn wedi cael effaith bwysig ar eu hapusrwydd a'u hyder yn yr ysgol, gan eu bod yn aml yn ei chael yn haws siarad â disgyblion eraill yn hytrach nag aelodau staff.

88 Pan fydd mentora cyfoedion yn fwyaf effeithiol, mae'n ffurfio rhan o strategaeth gyffredinol i ddatblygu lles pob disgybl. Yn ei harolygiad diweddar, nodwyd bod gan Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr arfer sy'n arwain y sector mewn perthynas â'r cymorth a ddarperir i ddisgyblion gan eu cyfoedion a'r effaith a gaiff hyn ar eu lles. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau arloesol sy'n galluogi disgyblion i gefnogi eu cyfoedion tra byddant ar yr un pryd yn eu helpu i ddatblygu eu hyder, eu medrau arwain a'u hunan-barch eu hunain.

**Astudiaeth achos 15: Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr – grymuso disgyblion**

**Cyd-destun**

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i lleoli yn y Tyllgoed yng Nghaerdydd yw Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr orllewinol y ddinas ac mae ganddi ddalgylch eang iawn. Mae tua 22% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a daw tua thraean arall o ddisgyblion o ardaloedd preswyl breintiedig y ddinas.

**Strategaeth**

Cydnabu'r ysgol mai un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wella lles pob disgybl oedd trwy

rymuso disgyblion i gefnogi ei gilydd ac ymgymryd â rolau arwain. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynodd yr ysgol ystod eang o strategaethau.

**Camau gweithredu**

**"Bechgyn Bonheddig"**

Caiff bechgyn unigol eu dewis yn dilyn pryderon ynglŷn â'u hymddygiad a'u perthnasoedd gyda chyfoedion ac oedolion. Cânt eu hyfforddi i arwain grwpiau o ddisgyblion ifanc y mae angen cymorth arnynt i ddatblygu eu hunan-barch. Yn sgil y cynllun, gwelwyd newid mawr yn agweddau'r dynion ifanc, ac mae hyn i'w weld yn eu gwaith ysgol ac wedi arwain at gynnydd academaidd.

**"Merched Mentrus"**

Grŵp o ferched a ddewiswyd i hyrwyddo perthnasoedd iach a chydraddoldeb yw Merched Mentrus. Maent wedi gwneud gwaith sylweddol ar drais tuag at fenywod a hawliau menywod. O ganlyniad i'r cyfle hwn, maent wedi cael llais a chyfle i fwynhau bywyd ysgol a bod yn rhan ganolog o gymuned yr ysgol. Trwy baratoi a chyflwyno gwersi ABCh a chynrychioli'r ysgol mewn cynadleddau, maent wedi magu hyder ac ysbrydoli disgyblion eraill yng nghymuned yr ysgol.

**Mentoriaid academaidd Plasmawr (MAPs) – mentoriaid cyfoedion**

Mae disgyblion o Flwyddyn 9 yn mynychu cyfnodau cofrestru gyda'r disgyblion iau ac yn eu cynorthwyo ag unrhyw anawsterau â'u gwaith ysgol. Yn ystod amser cinio, maent yn cynorthwyo disgyblion â'u gwaith cartref ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion.

**Cynghorwyr cam cyntaf (CCCs) – cwnselwyr cyfoedion**

Mae disgyblion hŷn yn yr ysgol yn trefnu eu bod ar gael yn ystod eu hawr ginio i gynorthwyo disgyblion sydd ag unrhyw bryderon am fywyd ysgol neu'n teimlo eu bod yn cael eu bwlio. Mae'r disgyblion hyn wedi ennill gwobrau am gynllunio gwrthfwlio ac maent yn rhan hanfodol o weithdrefnau gwrthfwlio'r ysgol.

**Grŵp gwrth-homoffobaidd DIGON**

Diben y grŵp yw gwneud pobl yn ymwybodol o'r effaith y gall iaith homoffobaidd ei chael ar unigolion a dileu'r defnydd achlysurol o iaith homoffobaidd. Mae disgyblion yn y grŵp yn gweithio i greu amgylchedd diogel yn yr ysgol lle gall pobl siarad yn gyfforddus am rywioldeb heb deimlo eu bod ar eu pen eu hunain.

Mae strategaethau eraill yn cynnwys: Darllenwyr Ifanc Plasmawr (DIPs); BALCH Dathlu Cymdeithas Amlddiwylliannol; a Llyfrgellwyr Ifanc Plasmawr.

**Deilliannau:**

- Mae presenoldeb yn gyson uchel – 94.7% yn 2012-2013 a 94.8% yn 2013-2014
- Mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn gyson isel (cyfanswm o 45 diwrnod yn sgil gwaharddiadau yn 2012-2013 ac 84 diwrnod yn 2013-2014), ac ni chafwyd

unrhyw waharddiadau parhaol er 2009
- Mae ffigurau pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar gyfer yr ysgol yn eithriadol o isel
- Mae disgyblion unigol yn dysgu goresgyn eu hanawsterau ac yn cyflawni'n dda

**Gweithio gyda phartneriaid**

89 Mae cydweithio agos ag asiantaethau eraill, er enghraifft asiantaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gwirfoddol, yn helpu i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn cael cymorth priodol ac amserol.

**Astudiaeth achos 16: Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands – gweithio gyda phartneriaid**

**Cefndir**

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn Ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae chwe deg tri y cant o'r disgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn nalgylch yr ysgol, mae tua 200 o blant yn gymwys i gael cymorth a gwasanaethau Dechrau'n Deg. Mae tri deg saith y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae asesiadau athrawon ac asesiadau gwaelodlin meithrin yn dangos bod nifer sylweddol o blant yn dechrau yn y meithrin gyda medrau lleferydd a chymdeithasol gwael iawn ac nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion personol. O ganlyniad, caiff amser anghymesur ei dreulio yn mynd â phlant i'r toiled ac yn eu haddysgu sut i gyfathrebu a sut i chwarae â'i gilydd.

**Strategaeth**

Mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn Dechrau'n Deg o feysydd fel addysg, iechyd, gofal plant, datblygiad iaith a rhaglenni rhianta yn cyfarfod bob hanner tymor fel rhan o banel amlbroffesiynol (MPP). Diben y cyfarfodydd hyn yw rhannu gwybodaeth ac arbenigedd y gweithwyr proffesiynol dan sylw er mwyn darparu cymorth a gwasanaethau hanfodol ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Mae'r holl blant rhwng 0 a 3 oed yn nalgylch Woodlands sydd, yn ôl eu hasesiad, ag anghenion uchel neu ganolig a allai effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad yn y dyfodol, yn cael eu trafod, ac fe gytunir ar gamau gweithredu a chymorth targedig. Daw gwybodaeth am blentyn o ystod o ffynonellau.

Mae natur y cymorth a gynigir yn dibynnu ar anghenion y plant a'u teuluoedd. Er enghraifft, efallai bod angen cymorth i fynd i'r toiled ar blentyn gan nyrs feithrin gymunedol neu gymorth datblygiad lleferydd gan swyddog datblygu iaith yn y blynyddoedd cynnar neu efallai bod angen gwaith allymestyn chwarae ac iaith ar riant oherwydd anawsterau iechyd meddwl. Yn ychwanegol, mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb am gyfeirio at wasanaethau priodol, er enghraifft cwrs rhianta i fam sy'n gweld ymddygiad ei phlentyn yn anodd.

Mae cael gwybodaeth am blentyn a'i deulu cyn iddo ddechrau yn Woodlands wedi bod yn werthfawr. Mae'n galluogi'r ysgol i arwain cydlynu'r defnydd o gymorth a gwasanaethau ar gyfer teuluoedd anghenus a'u plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol, gan felly leihau effaith unrhyw rwystrau rhag dysgu. Yn ychwanegol, mae'r pontio yn well gan fod staff yn gwbl ymwybodol o blant sy'n agored i niwed cyn iddynt ddechrau yn y meithrin ac fe gaiff cymorth ei dargedu'n fwy gofalus at anghenion plant unigol.

Rhoddir cymorth targedig i blant â medrau lleferydd, cymdeithasol a mynd i'r toiled cyn iddynt ddechrau yn y meithrin, sy'n galluogi staff addysgu i ganolbwyntio mwy ar addysgu a dysgu. Mae'r ymyrraeth gynnar hon yn estyniad hanfodol a gwerthfawr ar ystod gynhwysfawr o raglenni ymyrraeth sy'n bodoli ar draws yr ysgol.

**Deilliannau**

- Mae safonau yn yr ysgol wedi gwella ac mae perfformiad yr ysgol yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion yn gyson.
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr anghenion arbennig ar 'gweithredu gan yr ysgol'.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol ac yn gadael yr ysgol gyda safon dda o fedrau llythrennedd a rhifedd.
- Mae cyflawniad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim cystal â chyflawniad disgyblion sy'n talu am eu prydau, neu'n well.

90 Mae partneriaid a gofalwyr yn bartneriaid allweddol hefyd. Pan fydd ysgolion yn ymgysylltu â theuluoedd yn effeithiol, mae hyn yn debygol o arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

**Astudiaeth achos 17: Ysgol Gynradd Clase – ymgysylltu â theuluoedd**

**Cefndir**

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn ystâd dai fawr mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae pedwar cyfleuster addysgu arbenigol (CAA) yn yr ysgol. Mae pum deg wyth y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan un deg tri y cant o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth**

Er mwyn ymgysylltu â disgyblion sydd mewn perygl o gael cyfradd presenoldeb isel a thangyflawni, mae'r ysgol yn rhoi ffocws cryf ar weithio gyda theuluoedd.

**Camau gweithredu**

Mae Prosiect Chwarae Derbyshire (DPP) a grwpiau anogaeth yn helpu'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda theuluoedd cyfan, gan gynnwys gweithgareddau awyr agored, er enghraifft teithiau i'r traeth. Nid yw llawer o'r teuluoedd wedi cael cyfle i brofi gweithgareddau o'r fath yn y gorffennol. Y gweithiwr bugeiliol yn y DPP yw'r swyddog presenoldeb hefyd ac mae'n cadw mewn cysylltiad â theuluoedd pan fydd presenoldeb yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o sefydliadau fel The Exchange a Barnado's i gynyddu ymgysylltiad teuluol trwy fynychu grwpiau cymorth rhieni a thrwy drefnu grwpiau hunan-barch a sesiynau therapi chwarae unigol i ddisgyblion.

Mae Dechrau'n Deg wedi'i lleoli mewn ystafelloedd sy'n rhan annatod o ardaloedd dysgu ac mae hyn wedi annog cydweithio agos gyda theuluoedd sy'n agored i niwed. Mae ymwelydd iechyd yn gweithio ar y safle. Mae hyn yn hwyluso cysylltiadau da iawn rhwng yr ysgol a'r rhieni. Caiff rhieni y mae eu plant yn mynychu Dechrau'n Deg eu cyflwyno i'r pennaeth a staff allweddol eraill cyn cofrestru plant ar gyfer lle yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau wythnosol a phoblogaidd ar gyfer rhieni ac yn gwahodd arbenigwyr i siarad am ystod o faterion, er enghraifft rheoli ymddygiad, deall sut mae plant yn dysgu a datblygu strategaethau i gynorthwyo disgyblion sydd ag anawsterau lleferydd a chyfathrebu.

**Deilliannau**

- Mae rhieni'n hynod gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o safonau eu plentyn
- Mae rhieni'n teimlo'n hyderus i ofyn i staff am gymorth â dysgu ac ymddygiad eu plentyn
- Bu cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion sy'n agored i niwed; i un disgybl, cododd presenoldeb o 76% i 97% yn 2013-2014
- Bu tuedd ar i fyny mewn ffigurau presenoldeb er 2010 o 88.1% yn 2010 i 92.4% yn 2014; mae presenoldeb wedi parhau i godi hyd yn hyn eleni
- Ni chafwyd unrhyw waharddiadau yn yr ysgol yn y pum mlynedd ddiwethaf

## Atodiad 1: Cyfeiriadau

Estyn (2015) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013-2014.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiad-blynyddol/adroddiad-blynyddol-2013-2014/ [Defnyddiwyd 12 Mai 2014).

McCluskey, G., et al. (2013) *Gwerthusiad o'r Ddarpariaeth Addysg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gaiff eu Haddysgu y Tu Allan i'r Ysgol: Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.docs.hss.ed.ac.uk/education/creid/Reports/31_WAG_EOTAS_FinalRpt.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]. (Saesneg yn unig)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006) *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/dcells/publications/publications/circularsindex/2006/inclusionandpupilsupport/inclusionpupilsupport-w.pdf?lang=cy [Defnyddiwyd 12 Mai 2014].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2011) *Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectivecy.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014].

Llywodraeth Cymru (2014a) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, 2013/14.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140730-pupils-educated-other-than-at-school-2013-14-en.pdf [Defnyddiwyd 2 Ionawr 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014b) *Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli, ac ati) (Cymru) 2014: Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141023-pupil-referral-unit-guidance-cy.pdf [Defnyddiwyd 11 Mai 2015].

Llywodraeth Cymru (2014c) *Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2012/13 – Diwygiwyd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2014/140305-exclusions-schools-2012-13-revised-en.pdf [Defnyddiwyd 2 Ionawr 2015]. (Saesneg yn unig)

## Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag awdurdodau lleol, ysgolion cynradd ac uwchradd ac UCDau. Yn yr ymweliadau hyn, fe wnaeth AEM:

- gyfarfod ag aelodau perthnasol o staff a grwpiau o ddisgyblion, lle bo'n briodol
- adolygu dogfennau'r ALl, yr ysgol a'r UCD

Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o:

- ystadegau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a gwaharddiadau
- adroddiadau arolygu Estyn o ALlau, ysgolion ac UCDau

**Yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw:**

- Cyngor Ceredigion
- Cyngor Penfro
- Panel Symudiadau Rheoledig Cyngor Dinas Casnewydd

**Yr UCDau yr ymwelwyd â nhw:**

- Canolfan Gyflawni'r Bont, Casnewydd
- Darpariaeth Amgen y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr
- UCD Ceredigion
- Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS), Conwy
- Gwasanaeth Addysg Amgen Rhodfa Penrhos, Conwy
- Canolfan Addysg Tai, RhCT
- Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen
- Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Wrecsam

**Yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw:**

- Ysgol Gynradd Clase, Abertawe
- Ysgol Gynradd Holton, Bro Morgannwg
- Ysgol Gynradd Pen Afan, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands, Torfaen
- Betws yn ei Blodau, Ysgol Uwchradd Casnewydd
- Ysgol Gyfun Cymer Afan, Castell-nedd Port Talbot
- Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
- Ysgol Bro Pedr, Ceredigion
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd

## Adolygiad o lenyddiaeth

Yn ychwanegol i'r cyhoeddiadau y cyfeirir atynt yn y prif adroddiad, edrychwyd ar y dogfennau canlynol hefyd:


Comisiynydd Plant Cymru (2014) *Yr hawl i ddysgu: Cefnogi plant a phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion i gyrraedd eu potensial.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.complantcymru.org.uk/uploads/publications/457.pdf [Defnyddiwyd 11 Tachwedd 2014].

Estyn (2005) *Arolwg thematig o unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth debyg.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/173518.8/Arolwg%20thematig%20o%20unedau%20cyfeirio%20disgyblion%20a%20darpariaeth%20debyg%20-%202005/?navmap=30,163, [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

Estyn (2007) *Arfer awdurdodau addysg lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/173245.8/Arfer%20awdurdodau%20addysg%20lleol%20wrth%20fonitro%20lleoliad%20disgyblion%20sy%27n%20cael%20eu%20haddysgu%20y%20tu%20allan%20i%20leoliad%20yr%20ysgol%20-%20Mai%202007/?navmap=30,163, [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

Estyn (2012) *Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli lles ac ymddygiad disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/231777/Arolwg%20o%27r%20trefniadau%20ar%20gyfer%20rheoli%20lles%20ac%20ymddygiad%20disgyblion%20mewn%20unedau%20cyfeirio%20disgyblion%20-%20Ionawr%202012/?navmap=30,163, [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

Estyn (2013) *Cefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/294567/Cefnogi%20disgyblion%20ag%20anghenion%20cymdeithasol,%20emosiynol%20ac%20ymddygiadol%20yn%20effeithiol/?navmap=33,53,248, [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

Estyn (2013) *Helpu pobl ifanc i reoli emosiynau a pherthnasoedd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/287141.4/Helpu%20pobl%20ifanc%20i%20reoli%20emosiynau%20a%20pherthnasoedd/?navmap=33,53,248, [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

McCluskey, G., et al. (2013), *Gwerthusiad o'r Ddarpariaeth Addysg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gaiff eu Haddysgu y Tu Allan i'r Ysgol: Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.docs.hss.ed.ac.uk/education/creid/Reports/31_WAG_EOTAS_FinalRpt.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]. (Saesneg yn unig)

Ofsted (2013) *Pupils missing out on education.* Manchester: Ofsted. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/18825/1/Pupils%20missing%20out%20on%20education.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]. (Saesneg yn unig)

Reid, K. (2008) *Adroddiad ar Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR): Adolygiad annibynnol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/dcells/publications/publications/reports/3773934/nbarreport?lang=en [Defnyddiwyd 12 Mai 2014] (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2009) *Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (Dogfen: 076/2009). [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/090327nbaractionplancy.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014].

Llywodraeth Cymru (2011) *Adolygiad o addysg heblaw yn yr ysgol a chynllun gweithredu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru*.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/110815reviewandplancy.pdf [Defnyddiwyd 12 Mai 2014]

Llywodraeth Cymru (2011) *Ymddygiad a Phresenoldeb Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-2013.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/nbaractionplan1113/?skip=1&lang=cy [Defnyddiwyd 12 Mai 2014].

**Crynodeb o lenyddiaeth berthnasol nad yw wedi'i chynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad (Cyfeiriadau uchod):**

Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu tîm ymchwil o Brifysgol Caeredin i archwilio'r broses gwahardd o'r ysgol yng Nghymru a chyflwyno, cynllunio a chomisiynu darpariaeth addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol (EOTAS) (McCluskey et al, 2013).

Mae'r adroddiad yn awgrymu bod 'rhywfaint o gynnydd da wedi cael ei wneud o ran rhoi argymhellion yr adroddiadau hyn ar waith (NBAR, Adolygiad o Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol, ac ati) ond bod materion arwyddocaol yn parhau' (tud.1). Mae materion a nodwyd yn yr adroddiad yn cynnwys diffyg cysondeb mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn perthynas ag ansawdd y cwricwlwm, dulliau o reoli ymddygiad ac ailintegreiddio.

Mae'r adroddiad yn argymell y canlynol:

> Dylid nodi a hyrwyddo arfer dda mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a dylai cyfarfodydd rheolaidd darparwyr annog lledaenu arfer dda. Dylai hyn gynnwys rhannu enghreifftiau da o gwricwla sy'n bodloni safonau presennol, a rheoli ymddygiad yn effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn (tud.9).

Mae adroddiad NBAR (Reid, 2008) yn tynnu sylw at faterion arwyddocaol yn yr agwedd hon ar addysg:

- Ni chaiff y sefyllfa o ran ymddygiad a phresenoldeb ei helpu gan niferoedd sylweddol y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y mae eu lefelau llythrennedd a rhifedd ymhell islaw'r targedau cyrhaeddiad cyfartalog ar gyfer eu hoedran cronolegol. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o ddisgyblion â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd yn fwy tueddol o ddatblygu i fod yn ddisgyblion sy'n datblygu problemau ymddygiadol a/neu bresenoldeb (tud.4).

- Mae niferoedd mawr o weithwyr proffesiynol presennol wedi cael ychydig iawn o hyfforddiant ar gyfer eu rolau mewn rheoli presenoldeb neu ymddygiad, os o gwbl (tud.4).

- Mae nifer o ddisgyblion sydd allan o'r ysgol am amrywiaeth o resymau, nad yw eu darpariaeth addysgol yn cael ei monitro'n briodol ac nad ydynt yn cael addysg briodol (tud.5).

- Er bod darpariaeth ragorol yn bodoli ar gyfer cwricwlwm amgen a darpariaeth y tu allan i'r ysgol, mae hyn hefyd yn tueddu i amrywio o un awdurdod i'r llall (tud.5).

- Mae llawer o ymyriadau gyda disgyblion sy'n dangos problemau ymddygiad a/neu bresenoldeb yn digwydd yn rhy hwyr o lawer, yn aml ar ôl i sefyllfa ddechrau digwydd yn barhaus neu ddechrau bod yn argyfwng (tud.6).

Yn 2011, cynhaliwyd arolwg o ddetholiad o UCDau ledled Cymru gan Estyn ac AGGCC. Amlygodd yr arolwg hwn y diffyg cysondeb mewn perthynas â rheoli ymddygiad a lles disgyblion yn yr UCDau yr ymwelwyd â nhw (Estyn, 2012).

Roedd canfyddiadau o'r arolwg yn cynnwys:

> Mae staff addysgu a chymorth mewn UCDau yn gwneud gwaith anodd gyda disgyblion y mae eu hymddygiad yn heriol. Mae llawer ohonynt yn gwneud hyn yn dda. Yn gyffredinol, mae UCDau wedi rhoi'r polisïau priodol ar waith i'w helpu yn eu gwaith â disgyblion sy'n agored i niwed, y mae ymddygiad llawer ohonynt yn heriol. Fodd bynnag, nid yw pob polisi yn cynnwys digon o arweiniad defnyddiol ar gyfer staff (tud.2).
>
> Yn yr arfer orau, mae staff UCDau yn addysgu disgyblion sut i reoli eu hymddygiad eu hunain ac yn defnyddio cynlluniau rheoli ymddygiad cytûn ac asesiadau risg disgyblion unigol i'w helpu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw systemau cynllunio disgyblion UCDau yn mynd i'r afael â rheoli ymddygiad anodd gyda disgyblion unigol yn ddigon da (tud.2).
>
> Nid yw trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli llinell a llywodraethu UCDau yn ddigon trylwyr. Nid yw rheolwyr llinell a phwyllgorau rheoli yn gwneud digon i ddwyn yr athrawon sydd â gofal i gyfrif am gynnal yr UCD o ddydd i ddydd, (tud.3).

> Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn dilyn eu cyngor eu hunain o ran helpu UCDau i fonitro ac arfarnu'r ffordd y defnyddir strategaethau rheoli ymddygiad. Nid ydynt yn nodi effaith y strategaethau hyn ar les disgyblion na staff yn ddigon da nac ar wella arfer rheoli ymddygiad mewn UCDau trwy hyfforddiant wedi'i dargedu'n well (tud. 3).

Yn 2014, cynhaliwyd arolwg gan Gomisiynydd Plant Cymru gyda phlant a phobl ifanc a oedd yn mynychu UCDau yn ogystal ag arolwg gydag athrawon sydd â gofal am UCDau.

Roedd canfyddiadau o'r arolwg ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd plant a phobl ifanc eu bod yn cael anawsterau yn ymdopi ag addysg prif ffrwd oherwydd eu hymddygiad a'u perthnasoedd gwael gydag athrawon, oherwydd bwlio ac oherwydd pryder. Mae'r profiadau a ddisgrifir ganddynt yn awgrymu nad oedd ysgolion prif ffrwd yn gallu bodloni eu hanghenion dysgu ychwanegol na darparu lefel y cymorth sydd ei hangen ar ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg (tud.18).

- Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiad o gael eu haddysg mewn UCD, ac yn benodol, ynghylch ansawdd eu perthynas â staff addysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mwynhau mynychu UCD. Y broblem fwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â chael addysg mewn UCD a nodwyd gan ddysgwyr oedd diffyg pethau i'w gwneud a diflasu (tud.18).

- Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod canlyniadau camymddwyn yn deg ar y cyfan (tud.18).

Roedd canfyddiadau o arolwg yr athrawon sydd â gofal yn cynnwys y canlynol:

- Mae ansawdd perthnasoedd gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill yn anghyson (tud.27).

- Mae pob un o'r safleoedd yr adroddir amdanynt wedi rhoi Polisi Rheoli Ymddygiad ar waith ac mae staff ym mhob safle wedi cael hyfforddiant rheoli ymddygiad (tud.27).

Nodwyd mai prif heriau cyflwyno addysg mewn UCD oedd y canlynol:

- Gallu i gyflwyno'r cwricwlwm oherwydd niferoedd bach y staff
- Anawsterau o ran recriwtio staff addysgu
- Lledaenu gwybodaeth yn wael am ddatblygiadau'r cwricwlwm
- Anawsterau o ran sicrhau darpariaeth amgen a galwedigaethol o ansawdd da i gyflwyno'r Llwybr 14 i 19
- Anawsterau o ran cael cymorth amserol ar gyfer plant a phobl ifanc gan asiantaethau eraill (tud.28).

## Atodiad 3: Geirfa

| | |
|---|---|
| **CACHE** | Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal, Iechyd ac Addysg |
| **Cwricwlwm amgen** | Yng nghyd-destun yr adroddiad thematig hwn, mae cwricwlwm amgen yn cyfeirio at gwricwlwm wedi'i deilwra ar gyfer disgyblion unigol sy'n ei chael yn anodd elwa ar y cwricwlwm prif ffrwd. Gallai hyn gynnwys cyrsiau a gyflwynir gan ystod o sefydliadau y tu allan i'r ysgol, er enghraifft darparwyr hyfforddiant, colegau neu'r trydydd sector. |
| **NACH** | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| **Proffil Boxall** | Offeryn asesu a ddefnyddir i ddatblygu dealltwriaeth o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol plant a chynllunio ymyriadau a gweithgareddau cymorth effeithiol. |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Caroline Rees | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Huw Davies | Arolygydd tîm |
| Sw Roberts | Arolygydd tîm |